


# CYNLLUN STRATEGOL ADDYSG 2026-30

# CYFADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

# RHONDDA CYNON TAF

This document is available in English

# RHAGAIR

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol ac ystyried Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-30, mae angen adnewyddu ac adfywio ein gweledigaeth strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella o fewn y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ac ar draws ein lleoliadau addysgol, ein hysgolion a'n hunedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Cyflawnwyd cymaint yn ystod oes y Cynllun Strategol Addysg 2022-25 oherwydd ymroddiad diflino ein gweithlu addysg, ac mae gennym bob ffydd y byddwn ni, trwy weithredu'r cynllun newydd hwn yn effeithiol a chydweithio ar draws y system, yn adeiladu ar lwyddiannau diweddar ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir, perfformiad ein hysgolion a deilliannau disgyblion ymhellach.

Mae ymchwil yn dweud wrthym fod y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a'r rheiny nad ydynt yn parhau'n rhy eang ac yn cynyddu yn gyffredinol wrth i'n disgyblion symud trwy'r system addysg. Yn sail i'r cynllun strategol hwn, mae rheidrwydd a dyhead moesol cryf i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad hwn a sicrhau bod pob un o'r disgyblion, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau unigol, yn elwa ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel, mewn ysgolion rhagorol, a chymorth amserol i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

Nod y cynllun hwn yw sicrhau bod pob ysgol yn cael ei harwain gan arweinwyr a chyrff llywodraethol cryf fel bod gwelliant parhaus yn cael ei ddiogelu, a bod darpariaeth addysgol o'r ansawdd gorau yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer ein disgyblion. Cynigir y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fuddsoddi yn ein gweithlu addysgol a thrwy sicrhau bod ein disgyblion yn cael cymorth da mewn ysgolion cynhwysol, gyda mynediad at gwricwlwm ysgogol a phriodol sy'n paratoi pob person ifanc ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Ni ellir cyflawni hyn heb addysg y blynyddoedd cynnar o'r ansawdd gorau fel bod plant yn cael dechrau teg mewn bywyd a phob cyfle i lwyddo wrth iddynt symud ymlaen trwy'r system addysg.

Mae'n hanfodol ein bod yn cyflawni ar gyfer ein disgyblion, ni waeth beth yw eu hanghenion a'u hamgylchiadau personol, trwy ddarparu cymorth amserol ac ymyrraeth gynnar a dulliau cydweithredol effeithiol ar draws ein hysgolion, ac ymhlith ein teuluoedd, ein cymunedau, ein cyfarwyddiaethau a'n partneriaid strategol. Trwy sicrhau ein bod i gyd yn gweithio mewn partneriaeth effeithiol fel carfan i gyflawni ein gweledigaeth newydd a'n blaenoriaethau strategol a nodwyd, bydd mwy o welliannau'n cael eu sicrhau er budd ein disgyblion, ein teuluoedd a'n cymunedau.

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Y Cynghorydd Rhys Lewis
Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a'r Gymraeg

| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** | 3 |
| 2 | **Ein Cyd-destun** | 4 |
| 3 | **Cynllunio Strategol** | 4 |
| 4 | **Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant** | 9 |
| 5 | **Hunanwerthuso Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** | 10 |
| 6 | **Ein Gweledigaeth Strategol ar gyfer 2026-30** | 12 |
| 7 | **Ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2026-30** | 14 |
| | **Blaenoriaeth Strategol 1**: Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf, a gwelliant parhaus trwy gydweithio effeithiol | 15 |
| | **Blaenoriaeth Strategol 2:** Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb | 20 |
| | **Blaenoriaeth Strategol 3**: Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan | 27 |
| | **Blaenoriaeth Strategol 4**: Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu | 36 |
| 8 | **Casgliad** | 40 |

# 1. Cyflwyniad

Wrth edrych ymlaen at 2026–30, mae Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant RhCT wedi ymrwymo i adeiladu ar gyflawniadau diweddar a gyrru gwelliant ymhellach ar draws yr holl wasanaethau, lleoliadau addysgol ac ysgolion. Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd trwy roi'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25 ar waith yn llwyddiannus, yr arolygiad gan Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn RhCT yn 2023, a oedd yn gadarnhaol iawn, a darlun sy'n gwella o arolygiad Estyn a deilliannau disgyblion ar draws ein darparwyr addysg a'n hysgolion cofrestredig.

Mae uchelgais clir yn sail i'n strategaeth newydd, sef: cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, gan sicrhau bod pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir neu'i amgylchiadau, yn gallu manteisio ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel, cymorth effeithiol ac amserol, a chyfleoedd i gyflawni eu potensial. Mae sicrhau tegwch a chynhwysiant yn hanfodol i'r strategaeth oherwydd bod gan bob dysgwr hawl i gael addysg gynhwysol a manteisio ar y cymorth angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei botensial.

Mae'r cynllun hwn wedi'i wreiddio yn y gred fod arweinyddiaeth gref, llywodraethu effeithiol, a chydweithio yn hanfodol i sicrhau gwelliant parhaus. Trwy fuddsoddi yn ein gweithlu addysgol a sicrhau gwelliant ysgol effeithiol, addysgu a dysgu o ansawdd uchel, ein nod yw darparu profiadau addysgol rhagorol ar gyfer ein disgyblion fel eu bod yn cyflawni'r deilliannau gorau y gallant. Mae addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn parhau i fod yn gonglfaen i'n hymagwedd, gan fod y sgiliau sylfaenol a ddatblygir yn ystod y cyfnod hwn yn hanfodol ar gyfer llwyddo yn y dyfodol wrth i ddisgyblion symud ymlaen ar eu taith addysg.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2026–30 yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymunedau a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, gan gynnwys rhwystrau economaidd-gymdeithasol rhag dysgu, a'r angen i wella lles, presenoldeb, ymddygiad a'r deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion ymhellach.

Rydyn ni wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf yn ein hysgolion trwy gydweithio a gwelliant ysgol effeithiol.
- Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb.
- Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan.
- Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu, gyda chyfleusterau modern ac ymgysylltu cryf â theuluoedd, y gymuned ac asiantaethau allanol i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer pob dysgwr.

Trwy weithio ar y cyd ac yn llwyddiannus ag ysgolion, teuluoedd, cymunedau, a phartneriaid strategol, a sicrhau bod ein hymdrechion yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor, byddwn yn ymdrechu ar y cyd am ragoriaeth, tegwch a chynhwysiant ac yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer ein disgyblion yn RhCT.

## 2. Ein Cyd-destun

RhCT yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, sy'n gwasanaethu poblogaeth amrywiol o dros 242,000, yn cynnwys bron i 43,000 o blant 0–15 oed, sef yr ail boblogaeth fwyaf o'r ystod oedran hon yng Nghymru. Mae'r ardal yn gyfoethog o ran diwylliant a hunaniaeth ond yn wynebu heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol, gyda chyfradd amddifadedd cymharol uchel, sef 32%, a'r nifer uchaf ond un o blant ifanc yn byw yn yr amgylchiadau hyn o gymharu ag awdurdodau lleol eraill (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n Ymwneud â Phlant Ifanc 2019). Er bod effaith yr argyfwng costau byw yn amlwg yn ein cymunedau, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n debygol fod hyn i'w briodoli'n rhannol i Lywodraeth Cymru yn cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd. Cynhelir gweithgareddau hyrwyddo helaeth i wneud iawn am hyn a sicrhau bod teuluoedd cymwys yn parhau i ymgeisio am brydau ysgol am ddim ac elwa ar yr hawliau cysylltiedig ehangach fel y Grant Hanfodion Ysgol. Mae'r galw am ymyrraeth gynnar a gwasanaethau statudol yn parhau i fod yn uchel oherwydd anghenion cymunedol cymhleth ac effaith barhaus yr argyfwng costau byw.

Mae defnydd o'r Gymraeg yn tyfu yn RhCT, gyda 12.4% o drigolion yn gallu siarad Cymraeg — un o bedwar awdurdod lleol yn unig yng Nghymru lle bu cynnydd ers y cyfrifiad diwethaf, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad cryf i Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn RhCT.

Mae gwahaniaethau clir mewn cyrhaeddiad addysgol yn ein cymunedau: er bod gan chwarter o drigolion radd neu gyfwerth, nid oes gan chwarter ohonynt unrhyw gymwysterau. Er gwaethaf hyn, mae deilliannau disgyblion mewn TGAU a Safon Uwch yn gwella, a'r bwlch cyrhaeddiad rhwng ein disgyblion yn RhCT a gweddill Cymru yn culhau. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng disgyblion dan anfantais a'u cyfoedion yn parhau i fod yn rhy eang, ac mae gwella hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r awdurdod ar draws yr holl fesurau deilliannau.

## 3. Cynllunio Strategol

Bydd y Cynllun Strategol Addysg 2026-30 newydd hwn yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030, 'Gweithio gyda'n Cymunedau'... Mae'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer RhCT lle ...

**Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.**

Dyma ddiben y Cyngor, a'r rheswm dros ei fodolaeth…

**Rhoi arweinyddiaeth gymunedol a chynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan weithio'n ochr yn ochr â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid er mwyn i'n pobl, busnesau, a'r amgylchedd allu ffynnu.**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar bedwar amcan lles a fydd yn helpu'r Cyngor i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol RhCT.




Mae'r pedwar maes hyn yn adlewyrchu'r pedwar piler datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

**POBL A CHYMUNEDAU**: Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus

**GWAITH A BUSNES**: Helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT.

**BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD**: RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.

**DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG**: Cydnabod a dathlu ddoe, heddiw ac yfory RhCT

Mae pob un o’r pedwar amcan lles yn cynnwys blaenoriaethau sy’n ymwneud yn benodol â’n plant a’n pobl ifanc, ein hysgolion a gwaith y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Mae’r rhain wedi cael eu crynhoi, er hwylustod:



## POBL A CHYMUNEDAU

**Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu dysgu a thyfu’n ddiogel**

- Cynorthwyo plant a theuluoedd i gael y cyfleoedd gorau i ddatblygu, bod yn iach, a mwynhau gweithgareddau mewn llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol
- Helpu plant o bob gallu a chefndir i wneud eu gorau glas yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar welliant parhaus a safonau uchel
- Nodi a diwallu anghenion ein disgyblion a’u teuluoedd mor gyflym ag y bo modd
- Darparu amgylcheddau dysgu gwych trwy leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion newydd a gwell, gan gynnwys ysgol arbennig newydd a

## BYD NATUR A’R AMGYLCHEDD

**Amddiffyn a gwella’r amgylchedd naturiol**

- Amddiffyn, cefnogi a gweithio gyda byd natur i fynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a byd natur
- Rheoli tir sector cyhoeddus i gefnogi prosiectau cynaliadwy, gan gynnwys cynhyrchu 'ynni gwyrdd', storio carbon, rheoli risg llifogydd a chynyddu bioamrywiaeth a thyfu bwyd cymunedol

**Defnyddio Asedau Byd Natur er budd pobl a chymunedau**

- Parhau i fuddsoddi yn ynni’r haul ar draws ein hysgolion ac yn adeiladau’r Cyngor
- Darparu ystod o fannau gwyrdd o ansawdd da i bobl a chymunedau eu mwynhau

gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, gan gynnwys y rheiny sy'n profi tlodi, er mwyn iddynt allu cyflawni eu deilliannau addysgol gorau
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael llais ac yn ein helpu i ffurfio a gwella ein gwasanaethau a'n profiadau addysgol ymhellach

**Gall trigolion ofalu am eu hiechyd a'u lles er mwyn iddynt allu byw bywydau iach, annibynnol a chyflawn**
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein trigolion trwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd
- Datblygu ein hysgolion bro, sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu diwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r cymunedau ehangach

**Diogelu ein trigolion mwyaf bregus o bob oed, gan ddarparu amddiffyniad, gofal a chymorth pan fydd ei angen arnynt fwyaf er mwyn iddynt allu uchafu eu potensial**
- Amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion rhag niwed, esgeulustod a chamfanteisio
- Rhoi'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc, a sicrhau mynediad at amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n addas i'w hanghenion, i wella'u lles

## DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R IAITH GYMRAEG

**RhCT, lle mae diwylliant a threftadaeth yn fywiog, a gwahaniaeth yn cael ei ddathlu mewn cymunedau cryf sy'n gwella lles**
- Parhau i dyfu'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi, ein cymunedau a'n gwaith
- Cydnabod a gwella ein hymwybyddiaeth o amrywiaeth yn ein cymunedau fel ein bod yn cryfhau cydlyniant cymunedol ac yn diwallu anghenion ein trigolion o bob cefndir yn well

## GWAITH A BUSNES

**Cefnogi pobl i lwybrau gyrfa gwerth chweil, gwaith medrus a sicr**
- Cefnogi pobl o bob oedran i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt yn eu swyddi yn ein cymunedau lleol ac wrth weithio gyda busnesau lleol a darparwyr hyfforddiant i nodi cyfleoedd priodol ar eu cyfer
- Arwain trwy esiampl trwy ddarparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant o fewn y Cyngor, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a'r rheiny sy'n profi rhwystrau rhag gwaith
- Gweithio gyda'n cyflenwyr i gynyddu gwerth cymdeithasol a manteision cymunedol i bob contract, er enghraifft trwy swyddi, profiad gwaith a hyfforddiant
- Nodi a chefnogi swyddi a datblygu sgiliau fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, e.e. mewn technolegau newydd a datblygol

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn amlinellu rhai o'r deilliannau yr ydym yn anelu at eu cyflawni gyda'n cymunedau erbyn 2030, gan gynnwys:

- Bydd presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad ym mhob un o'n hysgolion yn parhau i ddangos cynnydd cryf, yn cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru, gyda deilliannau addysgol gwell, a chyfleoedd gwaith a hyfforddiant gwell ar gyfer ein disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol.
- Bydd gan deuluoedd wydnwch gwell; bydd llai o blant yn 'derbyn gofal' a byddant yn cael cyfleoedd gwell mewn bywyd.
- Bydd mwy o'n trigolion yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y fwrdeistref sirol i gadw'n egnïol, yn iach ac yn dda, ac yn lleihau eu risg o glefyd ac afiechyd.
- Bydd mwy o bobl yn RhCT yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a gwneud cynnydd.
- Bydd mwy o bobl yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, a mwy o ddisgyblion yn manteisio ar Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Bydd mwy o gyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer trigolion o bob oedran a chefndir i 'gysylltu' trwy'r celfyddydau, llyfrgelloedd a gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol

Yn ogystal â'r elfennau hyn, ym mis Ebrill 2025, ymrwymodd Cabinet y Cyngor i ddod yn llofnodwyr Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru a chymeradwyodd flaenoriaethau yn gysylltiedig ag addewid RhCT i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, sy'n cynnwys:

- Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn teimlo'ch bod yn derbyn gofal a chefnogaeth.
- Byddwn yn gwrando arnoch chi ac yn derbyn eich barn.
- Byddwn yn darparu cartref ar eich cyfer, sy'n gweddu'n dda i chi, lle gallwch chi fod yn hapus.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'ch iechyd meddwl a'ch lles.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu elwa ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant sydd wedi'u teilwra i chi fel unigolyn.
- Byddwn yn eich cynorthwyo i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i fyw bywyd hapusach ac annibynnol.
- Byddwn yn dathlu'ch cyflawniadau personol, ni waeth pa mor fawr neu fach ydynt.

Bydd y Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2026-30 yn adlewyrchu'r blaenoriaethau, y deilliannau a'r ymrwymiadau corfforaethol trosfwaol hyn, a bydd edau euraidd yn rhedeg trwy'r Cynlluniau Corfforaethol, Cyfadran a Gwasanaeth i sicrhau bod blaenoriaethau a datblygiadau strategol yn cyd-fynd â'i gilydd.

# 4. Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Mae gan y Gyfadran Addysg a Chynhwysiant gyllideb refeniw sy'n fwy na £249M (2025/26) ac mae ganddi dros 1,270 o staff canolog, a 4,590 o staff sy'n gweithio mewn ysgolion. Caiff cyfran sylweddol o raglen buddsoddiad cyfalaf y Cyngor ei blaenoriaethu ar gyfer ein hysgolion, ac mae ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy uchelgeisiol ar gyfer y naw mlynedd nesaf yn £414M ar hyn o bryd.

Mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn gwasanaethu 181 o leoliadau gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru, 33 o ddarparwyr addysg cofrestredig a 111 o ysgolion. Mae hyn yn cynnwys 4 ysgol arbennig (gydag ysgol anghenion dysgu ychwanegol newydd arall wrthi'n cael ei hadeiladu), 2 uned cyfeirio disgyblion a 52 o ddosbarthiadau cymorth dysgu. Mae gwasanaethau amlddisgyblaethol amrywiol ar gael i gefnogi ysgolion, sydd â meysydd cyfrifoldebau, gan gynnwys:

Ysgolion yr 21ain Ganrif

- Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgolion a'r Rhaglen Gyfalaf
- Rheoli Risg a Chydymffurfio, Parhad Busnes a Chynllunio at Argyfyngau
- Trefniadaeth Ysgolion a Chynllunio Lleoedd Ysgolion
- Clybiau Brecwast, Arlwyo, Prydau Cymunedol a Glanhau mewn Ysgolion
- Datblygu Gofal Plant a Chynnig Gofal Plant Cymru
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Gwella Ysgolion

- Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion
- Darparwyr Addysg Cofrestredig
- Strategaeth 14-19 oed
- Technoleg Addysg Hwb
- Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg
- Gwasanaethau Cerddoriaeth

Gwasanaethau Cynhwysiant

- Seicoleg Addysg
- Gwasanaethau Cynnal Dysgu
- Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a Thîm ADY y Blynyddoedd Cynnar
- Carfan Ysgol Rithwir/Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gwasanaeth Gweinyddol Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Addysg Ddewisol yn y Cartref

- Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Carfan Cyswllt â Theuluoedd ac Achosion Cymhleth

Trawsnewid Gwasanaethau a Data

- Gwybodaeth/Data Rheoli
- Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion
- Y Gwasanaeth Derbyn Disgyblion
- Llywodraethu Ysgolion

Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles

- Cymorth Mynychu'r Ysgol a Lles
- Gwasanaethau Cosb Benodedig
- Plant sy'n Colli Addysg
- Ysgolion Bro
- Trwyddedu Plant, Cyflogaeth a Hebryngwyr
- Diogelu mewn Addysg
- Urddas a Thlodi Mislif

Mae'r meysydd gwasanaethau amrywiol hyn i gyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'n lleoliadau addysgol, ein hysgolion a'n UCDau, a gwasanaethau allweddol y Cyngor, yn cynnwys Adnoddau Dynol, Cyllid, Iechyd a Diogelwch, Ystadau Corfforaethol a Gwasanaethau Plant i gefnogi ein lleoliadau addysgol i gyflawni eu blaenoriaethau strategol.

# 5. Hunanwerthuso Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a Fframwaith Hunanwerthuso, Monitro ac Adolygu'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn amlinellu sut caiff diwylliant perfformiad cryf, hunanwerthuso gwasanaeth a chynllunio gwelliant effeithiol eu cefnogi.

Mae'r hunanwerthuso gwasanaeth yn broses flynyddol sy'n ganolog i drefniadau perfformiad y Cyngor. Mae'r broses yn galluogi gwasanaethau ar draws y Cyngor, gan gynnwys y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, i werthuso a nodi cryfderau, blaenoriaethau a meysydd i'w gwella yn ffurfiol, sy'n llywio Cynllun Cyflawni pum mlynedd y Gyfadran sy'n cael ei adnewyddu bob blwyddyn. Yn y Gyfadran Addysg, mae un hunanwerthusiad gwasanaeth a Chynllun Cyflawni trosfwaol sy'n cwmpasu'r holl feysydd gwasanaeth a'r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2025-30. Mae ein proses hunanwerthuso gwasanaeth flynyddol yn darparu cyfle i fyfyrio ar y graddau y caiff egwyddorion datblygu cynaliadwy eu hymgorffori yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau, sef: meddwl yn yr hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio ac ymglymiad.

Mae dadansoddi data meintiol ac ansoddol yn elfen bwysig o'n hunanwerthuso gwasanaeth sy'n darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer meysydd gwella ar draws pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol, ac ar draws ein hysgolion. Mae hyn yn cynnwys monitro, gwerthuso ac adolygu ein perfformiad yn barhaus; dadansoddi dangosfyrddau data ar draws yr holl feysydd gwasanaeth ac ysgolion; deilliannau arolygu Estyn a chynnydd ysgolion sy'n achosi pryder ac elwa ar gymorth estynedig; a deilliannau ffurfiol ac anffurfiol ymgysylltu â rhanddeiliaid.

I lywio ein ffordd o feddwl, yn ogystal â defnyddio adborth presennol o ystod o weithgareddau ymgysylltu a sgyrsiau parhaus a gasglwyd fel rhan o'n prosesau gwerthuso rheolaidd, ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid yn benodol i lywio cyd-lunio'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2026-30. Mae ffynonellau gwybodaeth allweddol wedi cynnwys:

Cydweithwyr Addysg

- Arweinwyr Ysgolion: deilliannau'r arolwg o ganfyddiadau penaethiaid (Mawrth 2025) a deilliannau gweithdai (Mehefin 2025).
- Staff y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant: sesiynau gweithdy (Gorffennaf 2025).
- Cymdeithas Llywodraethwyr RhCT: sesiwn gweithdy (Gorffennaf 2025).

Ymgysylltu â'r Gymuned

- Grwpiau ffocws gyda rhieni / cynhalwyr (Mehefin 2025).
- Grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc (Mehefin 2025).

Undebau Llafur

- Cyd-bwyllgor Ymgynghori (Hydref 2025).

Aelodau Etholedig

- Cabinet: Adborth aelodau etholedig mewn cyfarfodydd, yn cynnwys sesiynau briffio uwch swyddogion (yn mynd rhagddo).
- Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant: adborth aelodau mewn cyfarfodydd (yn mynd rhagddo).

Cyfarwyddiaeth y Cyngor

- Uwch Reolwyr: Adborth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr yng nghyfarfodydd yr Uwch Reolwyr a sesiynau briffio uwch swyddogion (yn mynd rhagddo).

Amlygodd y themâu a ddaeth i'r amlwg o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid y blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer gwella dros y pedair blynedd nesaf, gyda chonsensws cryf yn ymwneud â'r meysydd canlynol, yn benodol:

- Arweinyddiaeth; gwella ysgolion; hunanwerthuso; llais y dysgwr; pwysau a chymorth o ran y gweithle; rhannu arfer gorau a llwyddiant; a dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethol.
- Addysgu a dysgu; arloesi digidol; datblygu sgiliau; a gwella safonau.

- ADY; presenoldeb; ymddygiad; diogelu; tegwch i bawb, yn cynnwys grwpiau bregus; ac amrywiaeth a diwylliant.
- Ymgysylltu a chydweithio â theuluoedd, cymunedau a phartneriaid; ysgolion bro; a systemau cyfathrebu effeithiol.
- Rhaglen moderneiddio ysgolion.

Mae themâu sy’n dod i’r amlwg o’n hymgysylltiad â rhanddeiliaid wedi cael eu cofnodi yn ein gweledigaeth strategol a’n blaenoriaethau i wella, ar gyfer 2026-30.

# 6. Ein Gweledigaeth Strategol ar gyfer 2026-30

Cenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru yw cyflawni ‘Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb’ trwy fynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr i gyflawni ei ddyheadau. Mae’r ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg eang a chytbwys trwy Cwricwlwm i Gymru yn ganolog i genhadaeth ein cenedl, sy’n amlinellu safonau uchel i bawb, gan gyfuno gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau. Pedwar diben Cwricwlwm i Gymru yw’r dyhead ar y cyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, sy’n arwain yr uchelgais genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a’r gweithle.

Mae ein Gweledigaeth ar gyfer Addysg yn RhCT ar gyfer 2026-30 yn adeiladu ar genhadaeth y genedl, fel ein bod yn cefnogi pob dysgwr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chyflawni ei botensial. Bydd hyn yn cael ei gyflawni pan fydd pob partner yn cydweithio’n llwyddiannus i fynd i’r afael â’r dyhead a’r bwlch cyrhaeddiad, gan sicrhau bod pob ysgol yn ymdrechu am ragoriaeth ac yn sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob dysgwr. Bydd ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:




Mae’r weledigaeth yn cyd-fynd â Chenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru, Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy’n pwysleisio datblygu cynaliadwy, atal, integreiddio, ymglymiad a meddwl hirdymor.

Mae ein gweledigaeth yn canolbwyntio ar **gydweithio** gan mai dyma’r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i’r afael ag anghydraddoldebau parhaus, ymateb i heriau lleol a sicrhau bod pob dysgwr, ni waeth beth yw ei gefndir neu’i amgylchiadau personol, yn gallu cael mynediad at addysg ragorol a chynhwysol. Mae’r dull hwn wedi’i seilio ar

dystiolaeth, adborth gan randdeiliaid, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel ei gilydd.

Mae cydweithio yn ganolog i'n model gwella ysgolion newydd oherwydd ei ffocws cryf ar ddatblygu system hunanwella lle gall ysgolion rannu arbenigedd ar y cyd, gwella addysgu a dysgu, a chodi safonau ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer hunanwerthuso mwy effeithiol, yn annog diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd, ac yn canolbwyntio ar weithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol, fel Cwricwlwm i Gymru, yn gyson ar draws ein hysgolion. Mae rhagoriaeth eisoes o fewn y system Addysg yn RhCT. Fodd bynnag, mae angen i niferoedd cynyddol o ysgolion bontio o fod yn dda i fod yn rhagorol ac i leiafrif o ysgolion sy'n achosi pryder wneud cynnydd carlam. Mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn gryfderau mewn llawer o ysgolion, ond ceir anghysondebau anochel ar draws y system. Mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar yr arfer da lle mae hyn yn bodoli ac yn ymestyn gallu ar gyfer hunanwella ar draws y system fel bod gwasanaethau, ysgolion, addysgu a dysgu, a deilliannau yn parhau i wella.

Mae dulliau cydweithredol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflenwi darpariaeth addysgol o ansawdd uchel i bawb, gan gynnwys disgyblion bregus. Mae gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADYTA) yn effeithiol yn ddibynnol ar gydweithio fel bod disgyblion ag ADY yn derbyn cymorth cynnar ac effeithiol trwy rannu gwybodaeth yn well a gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae gweithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid allweddol yn hanfodol ar gyfer creu system symlach, fwy tryloyw, a llai gwrthwynebol sy'n cynnwys plant, eu rhieni, a gwarcheidwaid yn llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Cyflawnwyd gwaith da wrth roi Deddf ADYTA ar waith, ond mae angen mwy o welliant ar draws y system. **Mae** cynhwysiant mewn addysg yn parhau i fod yn ffocws pwysig gan ei fod yn creu ymdeimlad o berthyn, yn ymestyn datblygiad academaidd a chymdeithasol-emosiynol ar gyfer pob un o'r disgyblion, gan baratoi pawb ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol. Bydd sicrhau bod gwelliant a chynhwysiant o ran ysgolion yn cael eu hintegreiddio'n llawnach dros y pedair blynedd nesaf yn ffocws strategol pwysig, o ystyried yr heriau tra hysbys o fewn y system, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae cyflawni **tegwch** gwell mewn addysg a deilliannau disgyblion yn RhCT yn hanfodol os ydym am sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal ac wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â gwella lles pob un o'r disgyblion. Trwy sicrhau bod gan bob dysgwr yr adnoddau ac yn cael y cymorth sydd ei angen arno i lwyddo mewn amgylcheddau cynhwysol, bydd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddeilliannau a chyfleoedd bywyd gwell. Mae ein data'n awgrymu bod cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer ein disgyblion bregus yn parhau i fod yn flaenoriaeth sylweddol, o ystyried y cysylltiad cryf rhwng tangyflawni addysgol, tlodi, ac anghydraddoldebau cymdeithasol ehangach sy'n treiddio trwy'r cylch anfantais yn ein cymunedau.

Gellir ond cyflawni ein gweledigaeth trwy sicrhau bod pawb ar draws y system yn anelu at gyflawni **rhagoriaeth** mewn addysg ar gyfer pob dysgwr, ac yn ymdrechu am welliant parhaus ar draws ein gwasanaethau a'n hysgolion. Mae ymchwil yn amlygu'n gyson fod arweinyddiaeth gref, llywodraethu effeithiol, a chydweithio yn hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus a deilliannau disgyblion gwell i bawb. Rhaid i'r cydweithio hwn gynnwys ein hysgolion, ein teuluoedd, ein cymunedau, ein cyfarwyddiaethau a'n

partneriaid strategol os ydym am sicrhau cymorth amserol, ymyrraeth gynnar, ac addysg gynhwysol i bob dysgwr.

# 7. Ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2026-30

Ar sail ein hunanwerthusiad eang a'n hadborth eang gan randdeiliaid, ac wrth adeiladu ar ein gwaith o'n cynllun strategol yn 2022-25, blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, cynigir y dylid mabwysiadu'r blaenoriaethau strategol canlynol yn y Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2026-30:

**Blaenoriaeth Strategol 1: Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf, a gwelliant parhaus trwy gydweithio effeithiol**

**Blaenoriaeth Strategol 2: Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb**

**Blaenoriaeth Strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan**

**Blaenoriaeth Strategol 4: Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu**

Bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn sail i'n dull i gyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn a bydd ffocws clir yn cael ei roi ar y pum ffordd o weithio, fel y diffiniwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r pum ffordd o weithio yn cynnwys

- **Cydweithio:** Gweithio gyda phobl eraill i gyflawni atebion cynaliadwy a bodloni amcanion lles.
- **Integreiddio:** Ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhopeth sy'n cael ei wneud.
- **Ymglymiad:** Cynnwys plant, pobl ifanc a rhanddeiliaid yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- **Meddwl yn yr hirdymor:** Gwneud penderfyniadau sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- **Atal:** Canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Fel y diffiniwyd yn ein gweledigaeth, bydd sicrhau cydweithio yn hynod arwyddocaol wrth sicrhau ein gweledigaeth yn ystod oes y cynllun strategol newydd.

## Blaenoriaeth Strategol 1: Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf, a gwelliant parhaus trwy gydweithio effeithiol

## Blaenoriaeth Strategol 1: Rhesymoli ar gyfer blaenoriaethu

Mae'r tirlun polisi presennol yng Nghymru yn rhoi arweinyddiaeth wrth wraidd dulliau cydweithredol, ar draws systemau, ar gyfer gwella ysgolion, codi safonau a chyflawni tegwch i bob dysgwr.

Mae Y Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru a chyfeiriad polisi ar wella ysgolion wedi'i seilio ar fodel cydweithredol gwella ysgolion, lle caiff arweinyddiaeth ei dosbarthu ar draws ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol. Mae ein gwasanaeth gwella ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar yn RhCT wedi'i seilio ar fodel cydweithredol ac yn annog gweithio rhwng ysgolion, cyfrifoldeb ar y cyd, a symud oddi wrth gystadleuaeth i gydweithio, lle mae arweinwyr yn chwarae rôl allweddol mewn rhannu arfer gorau ac yn cefnogi ei gilydd i godi safonau ar draws y system.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru oherwydd bod arweinwyr yn gosod gweledigaeth glir ac yn meithrin diwylliant cadarnhaol o welliant parhaus.  Caiff y cysylltiad cryf rhwng arweinyddiaeth a gwelliant ysgolion ei nodi'n gyson gan Lywodraeth Cymru ac Estyn fel y ffactor mwyaf arwyddocaol mewn gwella ysgolion a sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae adroddiadau ac astudiaethau achos Estyn yn amlygu rôl arweinyddiaeth effeithiol yn nhaith wella ysgolion. Mae recriwtio a chadw arweinwyr o'r safon orau yn hanfodol, a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn nysgu proffesiynol ein darpar arweinwyr, o fewn ysgolion ac yn y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae arweinyddiaeth yn ganolog i'r Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd, ac yn amlygu bod angen arweinyddiaeth gref ar bob lefel i ymgorffori myfyrio, hunanwerthuso a gwelliant o fewn ysgolion. Mae gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn parhau i fod yn argymhelliad mynych ar gyfer gwelliant mewn adroddiadau arolygu ar lefel ysgol ac awdurdod lleol ledled Cymru, fel yr amlygwyd yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2023-24 ac yn arolygiad y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn 2023.

Mae datblygu arweinyddiaeth yn ganolog i'n hymdrechion i wella ysgolion, a bydd ein Gwasanaeth Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cwricwlwm rhanbarthol yn parhau i gael ei fonitro'n agos i sicrhau ei fod yn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlygu bod llywodraethu cryf yn hanfodol ar gyfer gwella ysgolion, arweinyddiaeth effeithiol, a sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau

statudol. Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol mewn goruchwylio ansawdd addysg, gosod gweledigaeth a chyfeiriad ysgol, a dwyn arweinwyr i gyfrif am safonau addysgol a rheolaeth ariannol. Fodd bynnag, mae ymglymiad uniongyrchol llywodraethwyr mewn gweithgarwch gwella ysgolion yn amrywiol ar draws ein hysgolion, ac mae angen cysondeb gwell.

Mae angen hyfforddiant gorfodol a chymorth parhaus o ansawdd uchel ar gyfer llywodraethwyr i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Bydd gwella gallu ein llywodraethwyr ysgolion i weithredu fel ffrindiau beirniadol a sicrhau hyfforddiant o ansawdd uchel yn allweddol o ystyried Adroddiad thematig Estyn ar gyrff llywodraethol (2023) a'r amrywiad o ran arferion sy'n bodoli ar draws ein hysgolion.


Bydd Blaenoriaeth Strategol 1 yn adeiladu ar lwyddiannau'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Arolygiad llwyddiannus Estyn (2023) o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol, a oedd yn cynnwys dwy astudiaeth achos arfer gorau gan yr arolygiaeth ar:
    - Ddatblygu arweinwyr mewn addysg y dyfodol trwy gynnig dysgu proffesiynol cryf a chynllunio olyniaeth effeithiol
    - Defnyddio data ar draws yr awdurdod lleol i lywio cynllunio, gwneud penderfyniadau a chymorth ar gyfer ysgolion.
- Awgrymodd agweddau cadarnhaol eraill ar yr arweinyddiaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad fod arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel. Teimlwyd hefyd fod dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a'u bod wedi eu grymuso i gymryd camau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a gwella deilliannau. Teimlwyd bod rhaglen glir ar gyfer gwerthuso a gwella ar waith a bod staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, a'u bod yn wybodus am y cyfeiriad a'r weledigaeth ar gyfer gwella. O ganlyniad, teimlai Estyn fod yr awdurdod lleol, dros gyfnod, wedi gwella'r gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol ac yn gynyddrannol.
- Mae Fframwaith Hunanwerthuso, Monitro ac Adolygu'r Gyfadran wedi cael ei ddiweddaru, strwythurau Cynlluniau Cyflawni yn cyd-fynd â defnydd cryfach o ddangosyddion perfformiad a meini prawf llwyddiant ar draws pob maes gwasanaeth mewn Addysg. Mae defnydd hynod effeithiol o ddata ac ymgysylltu â rhanddeiliaid bellach yn cael ei ddefnyddio i lywio hunanwerthuso gwasanaethau a chynllunio strategol.
- Bu 63 o arolygiadau ysgolion cyhoeddedig ar draws blynyddoedd academaidd 2022/23 i 2024/25. Arolygwyd 48 o ysgolion o blith cyfanswm o 111 o ysgolion, a barnwyd nad oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol ar adroddiadau cyhoeddedig. Ar hyn o bryd, nid yw 107 o'n 111 o ysgolion (96.4%) mewn categori gweithgarwch dilynol gydag Estyn. Yn ystod 2024/25, mae 6 o arolygiadau darparwyr addysg cofrestredig wedi cael eu cynnal, gyda deilliannau da a rhagorol yn cael eu cyflawni yn y rhan fwyaf o achosion.
- Nodwyd bod nifer o ysgolion yn dangos arweinyddiaeth gref (e.e. Ysgol Hen Felin; Ysgol Gynradd Dolau; Ysgol Gynradd Llwydcoed; Ysgol Gynradd Llanhari ac Y Pant) yn ystod arolygiadau ysgolion a gofynnwyd iddynt ysgrifennu astudiaethau achosion arfer gorau.

- Amgyffrediadau cadarnhaol iawn o arweinyddiaeth strategol o fewn y Gyfadran Addysg (Mawrth 2025), a'r rhan fwyaf o benaethiaid yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod:
    - polisïau effeithiol ar waith a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol (95.3%);
    - gweledigaeth, cenhadaeth a blaenoriaethau'r ALl ar gyfer gwella wedi cael eu nodi'n glir a'u cyfleu'n dda (92.9%);
    - y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn glir ac yn blaenoriaethu twf a datblygiad y Gymraeg a darpariaeth (91.8%);
    - cyfathrebu effeithiol a rheolaidd (91.8%);
    - arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn y Gyfadran Addysg (90.6%);
    - systemau cadarn ar gyfer rheoli cyllid (90.5%); a gwaith effeithiol mewn partneriaeth a gwaith amlasiantaethol effeithiol (88.2%).
- Amgyffrediadau cadarnhaol iawn o Ansawdd Gwasanaethau a Chymorth yn y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant (Mawrth 2025).
    - Roedd bron pob un o'r penaethiaid (dros 95%) yn ystyried bod y cymorth a'r gwasanaethau ar gyfer: Adnoddau Dynol; rheoli adnoddau a rheolaeth ariannol; a diogelu a ddarparwyd, yn dda neu'n rhagorol
    - Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion (dros 90%) yn ystyried bod y cymorth a'r gwasanaethau ar gyfer: iechyd a diogelwch; llywodraethu ysgolion; presenoldeb a lles; diogelwch a rheoli risg; cynllunio at argyfyngau; derbyniadau i ysgolion; rheoli data a gwybodaeth; a dysgu proffesiynol ar gyfer darpar arweinwyr, yn dda neu'n rhagorol
    - Roedd dros 85% yn ystyried bod y cymorth a'r gwasanaethau ar gyfer: rheoli a chynnal adeiladau; trefniadaeth a chynllunio ysgolion; a phlant sy'n derbyn gofal, yn dda neu'n rhagorol
    - Roedd dros 80% yn ystyried bod y cymorth a'r gwasanaethau ar gyfer gwella ysgolion (Consortiwm Canolbarth y De a'r Awdurdod Lleol); dysgu proffesiynol (Consortiwm Canolbarth y De) a darparwyr addysg cofrestredig, yn dda neu'n rhagorol.
- Sefydlwyd perthnasoedd a phartneriaethau effeithiol gyda'n hysgolion, a chyfleoedd ar gyfer rhannu arfer gorau ar draws ystod o fforymau, gan gynnwys y Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd, y Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd, Fforwm Dirprwy Benaethiaid Uwchradd a Chynullwyr Clwstwr.
- Gwnaed newidiadau trawsnewidiol i'n systemau rheoli gwybodaeth ysgolion, a mabwysiadwyd dulliau hynod effeithiol ar gyfer rheoli'r newid hwn ar draws pob ysgol.
- Gwnaed gwaith helaeth o ran yr Adolygiad Haen Ganol a sefydlwyd gwasanaeth gwella ysgolion newydd wedi'i gyd-lunio. Datblygwyd dogfennau arweiniad ategol.
- Datblygwyd systemau a phrosesau hynod effeithiol ar gyfer adolygu pob ysgol ac ar gyfer darparu ymyrraeth a chymorth cynnar ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder. O ganlyniad i raglenni ymyrraeth RhCT, cefnogwyd pump o uwch arweinwyr gan Arweinwyr Systemau, a manteisiodd 12 ysgol ar gymorth Arweinwyr Rhanbarthol ar gyfer Llywodraethu yn ystod 2024-25.
- Cyflwynwyd rhaglenni hynod effeithiol ar gyfer Darpar Arweinwyr, gyda chyfraddau llwyddiant uchel ar gyfer sicrhau swyddi arwain, a sicrhau cynllunio olyniaeth effeithlon. Manteisiodd cyflenwad llawn o 16 ymarferwr ar y rhaglen ar gyfer Darpar Arweinwyr yn 2024-25, ac mae'r adborth yn gyson ragorol.

- Mae cynllunio strategol, gweithredu a gwerthuso'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, 2025) wedi bod yn effeithiol, a deilliannau gwell wedi'u cyflawni ar draws y rhan fwyaf o fesurau deilliannau. Mae ymgysylltiad gan bartneriaid wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol hefyd, a chynhaliwyd arolygiad cadarnhaol gan Estyn o'r Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg ym mis Hydref 2025.






Bydd angen i Flaenoriaeth Strategol 1 adeiladu ar y meysydd i'w gwella canlynol a nodwyd:

- Mireinio ein hymagweddau at hunanwerthuso gwasanaethau yn barhaus (Argymhelliad 1: Miniogi ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio gwelliant – Arolygiad Estyn 2023).
- Gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ymhellach yn ein hysgolion gan fod hyn yn parhau i fod yn argymhelliad mynych o arolygiadau Estyn.
- Mae deilliannau arolwg amgyffrediadau penaethiaid yn awgrymu bod angen i'r Gyfadran gryfhau ymgysylltiad rhieni / gwarcheidwaid a disgyblion mewn cynllunio strategol.
- Sefydlu grwpiau ffocws gydag arweinwyr ysgolion i archwilio amgyffrediadau llai ffafriol rhanddeiliaid ymhellach o ran nifer fach o feysydd gwasanaeth.
- Gwella perfformiad ysgolion ymhellach a lleihau nifer yr ysgolion sydd angen cymorth estynedig gan wasanaethau gwella ysgolion oherwydd pryderon (wyth ar hyn o bryd) neu weithgarwch statudol Estyn (pedair ysgol arall adeg llunio'r cynllun yma).
- Sicrhau bod y gwasanaethau gwella ysgolion a sefydlwyd yn ddiweddar yn cyflawni gwelliant ysgolion hynod effeithiol trwy gymorth uniongyrchol a chydweithio pwrpasol ar draws y system addysg.
- Sicrhau bod y gwasanaeth dysgu proffesiynol a'r gwasanaeth cymorth cwricwlwm newydd yn diwallu anghenion ein hysgolion a'n cyrff llywodraethol ac yn cyfrannu at welliant ysgolion.

## Blaenoriaeth Strategol 1: Camau Strategol Lefel Uchel

Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y gweithlu addysg o'r ansawdd gorau a mwyaf medrus sy'n bosibl, a bod llywodraethu'n gadarn ac yn effeithiol, gan arwain at ysgolion a gwasanaethau dyheadol sydd â pherfformiad uchel. Dyma'r camau a nodwyd i gyflawni'r flaenoriaeth hon:

- Mae arweinwyr a llywodraethwyr ar draws y system yn creu diwylliant o uchelgais, disgwyliadau a pherfformiad uchel o fewn eu hysgolion.
- Mae arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws ein hysgolion yn hynod effeithiol, gyda chymorth ac ymyrraeth amserol yn cael eu darparu pan fydd pryderon yn dod i'r amlwg.
- Mae systemau a phrosesau o fewn yr awdurdod lleol yn arwain at nodi ysgolion sy'n achosi pryder yn gyflym, ymyrraeth a gwelliant ysgol amserol.
- Mae ysgolion a gwasanaethau'n hunanwerthuso'u perfformiad yn gywir ac mae ganddynt gynlluniau gwella ar waith yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cyflawni gwelliant parhaus ac effaith fesuradwy.
- Mae cynlluniau hunanwerthuso a gwella ysgolion a chyrff llywodraethol yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu hynod effeithiol a gwella deilliannau pob un o'r disgyblion.
- Sicrhau bod gan ysgolion a gwasanaethau systemau gwybodaeth reoli a hyfforddiant llythrennedd digidol cadarn ac effeithlon, ymestyn hunanwerthuso wedi'i yrru gan ddata, hunanwerthuso, gwneud penderfyniadau strategol, effeithiolrwydd gwasanaethau ac ysgolion.
- Rhoddir cyfleoedd ystyrlon i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i helpu ffurfio a gwella gwasanaethau a darpariaeth addysgol ymhellach.
- Mae gwasanaethau gwella ysgolion yn hwyluso cydweithio dwfn a phwrpasol sy'n cyflwyno cymorth hynod effeithiol o un ysgol i'r llall, ac yn rhannu arfer gorau a gwelliannau ar draws y system.
- Mae dysgu proffesiynol a ddarperir gan y gwasanaeth rhanbarthol a'r gwasanaethau canolog ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethol yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol ac yn cyflawni gwelliant.
- Darperir dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer llywodraethwyr, sy'n eu harfogi â'r sgiliau arwain strategol i ymgymryd â gweithgareddau gwella ysgolion a gwerthuso effaith.
- Mae cynlluniau datblygu gweithlu effeithiol ar waith sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff yn effeithiol, ac ymagweddau cadarn at gynllunio olyniaeth.
- Ymagweddau cydweithredol at fynd i'r afael â phwysau o ran y gweithlu, rhannu arbenigedd a staff ar draws grwpiau o ysgolion, gan sicrhau arbedion maint a gwydnwch.
- Caiff arweinwyr a rheolwyr eu cynorthwyo i wella perfformiad a deilliannau trwy gyfleoedd rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol effeithiol.
- Caiff cydweithio ar draws y Gyfadran eu cryfhau i sicrhau bod dulliau ymyrraeth gynnar ac atal yn cyd-fynd â'i gilydd, yn effeithlon ac yn cyflawni deilliannau gwell.

- Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyflawni gwelliant ar draws pob un o'r saith deilliant.
- Darperir cymorth i sicrhau bod bron pob un o'r ysgolion yn aros o fewn sefyllfa cyllideb gadarnhaol, a gwneir defnydd effeithiol o gyllid grant ar lefel ysgol a Chyfarwyddiaeth.

## Blaenoriaeth Strategol 1: Deilliannau rydym eisiau eu gweld erbyn 2030

- Mae arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol yn amlwg yn y rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy).
- Mae nifer swyddi gwag llywodraethwyr yn llai (o 25% neu fwy).
- Caiff llawer o ysgolion (70% neu fwy) eu cynnwys mewn gweithgarwch gwella ysgolion ar y cyd ag ysgolion eraill, a gallant ddangos effaith.
- Mae'r rhan fwyaf (90% neu fwy) o arweinwyr ysgolion naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y gwasanaethau dysgu proffesiynol a chymorth cwricwlwm rhanbarthol yn dda neu'n rhagorol.
- Nid yw bron pob un (95% neu fwy) o'r ysgolion mewn categori statudol neu mae angen cymorth estynedig arnynt.
- Nid oes angen cymorth mwyach ar bron pob un (95% neu fwy) o'r ysgolion yr oedd angen cymorth estynedig arnynt ac nad ydynt mewn categori statudol, ar ôl dau dymor o ymyrraeth.
- Mae % disgyblion Blwyddyn 1 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o leiaf 4% dros gyfnod o bedair blynedd.
- Mae cyfraddau pontio ar draws pob cyfnod pontio allweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn dangos gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn ar draws pob dangosydd perfformiad.
- Nid oes angen cymorth ar bron pob un (95% neu fwy) o'r ysgolion trwy'r protocol diffyg yn y gyllideb.

## Blaenoriaeth Strategol 2: Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb

## Blaenoriaeth Strategol 2: Rhesymeg ar gyfer Blaenoriaethu

Dros y pedair blynedd nesaf, mae angen ystyried yn ofalus sut gellir datblygu ymagweddau at asesu ymhellach i adlewyrchu cyd-destun Cwricwlwm i Gymru, gan gydnabod bod asesu'n rhan annatod o helpu addysgu da a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'u dysgu. Dylai strategaethau addysgu a dysgu ganolbwyntio ar addysg gynhwysol o ansawdd uchel trwy gyflwyno cwricwlwm hynod effeithiol, a phwyslais cryf ar addysgeg sy'n hyrwyddo annibyniaeth a phrofiadau dilys disgyblion.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, dylid ystyried bod asesu yn cefnogi cynnydd disgyblion, proses addysgu a dysgu barhaus ac annatod. Mae arferion asesu ar gyfer dysgu yn ganolog i Gwricwlwm i Gymru, gan alluogi athrawon i ddefnyddio asesu parhaus i lywio penderfyniadau am addysgu a helpu disgyblion i ddeall eu cynnydd a'u camau nesaf. Yn ychwanegol, mae asesu yn fwyaf effeithiol pan mae'n cefnogi dilyniant disgyblion, yn cael ei ymgorffori mewn cynllunio'r cwricwlwm, ac yn hyrwyddo deialog ystyrlon am ddysgu. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod dulliau asesu ysgolion yn nodi'n effeithiol y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ar draws y cwricwlwm, a'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau dilyniant pellach.

Diben trosfwaol ein gwasanaeth gwella ysgolion yw darparu cymorth a her broffesiynol i bob ysgol, sy'n sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael y profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl, ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau, er mwyn cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb. Dylai dulliau addysgu a dysgu feithrin annibyniaeth, dysgu myfyriol a phrofiadau dilys sy'n datblygu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad thematig diweddaraf gan Estyn ar addysgu Cwricwlwm i Gymru yn amlygu rôl

ganolog addysgu o ran cyflawni nodau Cwricwlwm i Gymru ac mewn sicrhau deilliannau gwell i bob un o'r disgyblion. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi addysgeg yn ganolog i welliant addysgol, gan alw ar ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol i gynnal ffocws cryf ar addysgu o ansawdd uchel.

Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn cyfeirio at effaith cyfleoedd dysgu proffesiynol ac yn datgan 'pan mae dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael yr effaith fwyaf, mae'n gynaliadawy, yn gydweithredol ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella addysgu'. Yn ychwanegol, mae addysgu, dysgu ac asesu effeithiol ac sy'n creu effaith yn allweddol i ennyn ymgysylltiad pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus ar eu taith addysg ac yn cyflawni deilliannau gwell.

Mae'r pedwar nod strategol allweddol a restrir isod yn hanfodol os yw strategaethau gwella ysgolion o fewn ysgol am sicrhau cynnydd effeithiol gan ddisgyblion a deilliannau gwell ar gyfer pob un o'r disgyblion:

- Datblygu dysgu proffesiynol effeithiol a chydweithredol ar gyfer y gweithlu.
- Ymgorffori arferion asesu systemig i lywio'r addysgu a'r dysgu yn gadarn.
- Sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael mynediad cyfartal at addysg, ni waeth beth yw eu cefndir na pha mor fregus ydynt, yn cynnwys ffocws ar ddatblygu medrau mewn cyfathrebu a chaffael y Gymraeg.
- Darparu cymorth targedig ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'n hanfodol fod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael ei ymgorffori'n llawn ym mhob un o'n hysgolion ac yn ategu datblygiad arferion asesu ffurfiannol sy'n berthnasol i gyd-destun ysgolion unigol. Rhaid i bob un o'r dulliau addysgu a dysgu annog myfyrio, gwerthuso a chydweithio rhwng pob un o'r staff a'r disgyblion fel rhan o gylch addysgu a dysgu gweithgar sy'n dangos cynnydd cryf ac effeithiol disgyblion. Hefyd, mae angen cynllunio a gweithredu gofalus a medrus ar gyfer pob dull sy'n galluogi athrawon a staff cymorth i werthuso dealltwriaeth disgyblion a'r ffordd y maent yn cymhwyso gwybodaeth a medrau.

Effaith y nodau strategol hyn fydd gweithlu hynod fedrus sy'n hyrwyddo gwydnwch ac annibyniaeth ym mhob un o'u disgyblion.  O ganlyniad, byddai pob un o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol i werthuso a gwella'u dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, ac yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol cychwynnol.

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn strategol bwysig ar gyfer y cynllun hwn a datblygu'r Gymraeg gan ei bod yn trawsnewid y dyhead am Gymru ddwyieithog yn realiti statudol, ar draws systemau. Bydd yn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddod yn siaradwr Cymraeg rhugl, ni waeth beth fo'i gefndir, a bod y system addysg wedi'i harfogi, yn atebol, ac yn cynnwys adnoddau i gyflawni'r weledigaeth hon.

Bydd Blaenoriaeth Strategol 2 yn adeiladu ar lwyddiannau'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

**Gwella Ysgolion**

- Roedd canfyddiadau arolygu Estyn yn ystod y cyfnod hwn yn gadarnhaol, ar y cyfan, ac yn dangos bod ansawdd yr addysgu yn gryf yn y rhan fwyaf o ysgolion. Gofynnwyd am astudiaethau achos arfer gorau gan nifer o ysgolion. Er enghraifft, canmolwyd Ysgol Gynradd Dolau am ddatblygu arweinyddiaeth ac addysgu trwy lwybrau dysgu proffesiynol.
- Mae deilliannau arolygu mewn lleoliadau darparwyr addysg cofrestredig yn gyson dda neu'n well.
- Mae Gwasanaeth Gwella Ysgolion a modelau cyflwyno gwasanaethau newydd wedi cael eu sefydlu mewn partneriaeth ag ysgolion.
- Sefydlwyd 11 o gydweithrediadau peilot; 8 fertigol a 3 llorweddol.
- Sefydlwyd gwasanaeth dysgu proffesiynol a chymorth cwricwlwm rhanbarthol yn ddiweddar, ac fe gaiff y cynnig ei lywio gan ddadansoddiad o flaenoriaethau strategol ar draws ein hysgolion.
- Mae gan y Gyfadran brotocolau a systemau Adolygu Ysgol Gyfan sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer galluogi adolygiadau cydweithredol o berfformiad pob ysgol, a threfnu cymorth ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder. Trwy nodi anghenion cymorth yn gynnar, mae'r broses gydweithredol hon ar gyfer gwerthuso ysgolion â phryderon sy'n dod i'r amlwg wedi hwyluso ymyriadau teilwredig ac wedi sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd yr addysgu.
- Mae dulliau Carfan o Amgylch yr Ysgol wedi sicrhau cydweithio effeithiol trwy ddod â gwasanaethau lluosog yr awdurdod lleol at ei gilydd i oresgyn a mynd i'r afael ar y cyd â heriau addysgu a dysgu.
- Mae gweithgarwch gwella ysgolion wedi adolygu effeithiolrwydd systemau olrhain ysgolion i sicrhau bod pob un o'r disgyblion, yn enwedig disgyblion bregus, yn gwneud cynnydd priodol.

**Cynllunio a Gweithredu'r Cwricwlwm**

- Mae ysgolion wedi ymgorffori egwyddorion Cwricwlwm i Gymru mewn polisïau addysgu a dysgu, sy'n cael eu trafod fel mater o drefn trwy brosesau Adolygu Pob diogelu arferol.
- Amlygodd Partneriaid Gwella fod gan bob ysgol bolisïau addysgu a dysgu a chynlluniau dysgu effeithiol sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru.
- Mae cynllunio'r cwricwlwm yn dod yn gynyddol deilwredig ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Mae'n canolbwyntio ar ddilyniant a chyd-destun lleol.
- Sefydlwyd trefn i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol ar draws clystyrau i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgu.

**Dysgu Proffesiynol a Datblygu Arweinyddiaeth**

- Mae prosiectau cydweithio Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi darparu arbenigedd effeithiol o ran y cwricwlwm ac addysgeg.
- Ymgorfforwyd cynnig dysgu proffesiynol cryf a chydlynus ar draws ysgolion a gwasanaethau canolog, ac mae 96–100% o gyfranogwyr yn ystyried bod hyfforddiant yn dda neu'n dda iawn.
- Mae rhaglenni Darpar Arweinwyr ac Arweinwyr Canol wedi datblygu capasiti arwain yn effeithiol i sicrhau cynllunio olyniaeth strategol ar draws yr awdurdod lleol. Dechreuodd 34 o ymarferwyr Raglenni Datblygu Arweinwyr Canol neu Uwch Arweinwyr CCD yn 2024-25, a dechreuodd naw pennaeth newydd neu bennaeth dros dro ar y Rhaglen ar gyfer Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro o fis Rhagfyr 2024. Ymgymerodd naw arweinydd ysgol arall â rhaglen dysgu proffesiynol newydd Arwain Disgyblion Bregus yn ystod 2024-25.
- Mae rhwydweithiau sy'n benodol i bwnc a chymorth safoni ar draws sectorau wedi darparu cysondeb mewn ymagweddau at addysgeg ac asesu.
- Mae Partneriaid Gwella wedi gwerthuso ac adrodd ar ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r asesu yn ein hysgolion fel mater o drefn, gan sicrhau atebolrwydd a chymorth ac ymyrraeth amserol.

**Defnydd Effeithiol o Ddata ac Asesu ar gyfer Dysgu**

- Bu ffocws cryf ar ddefnyddio data i lywio addysgu ac ymyrraeth, a Phartneriaid Gwella yn dadansoddi data ysgolion fel mater o drefn i sicrhau bod systemau olrhain yn nodi disgyblion bregus yn gynnar.
- Mae staff yr awdurdod lleol yn defnyddio dadansoddeg School on Page i driongli perfformiad addysgu gyda dangosyddion deilliannau a lles.
- Mae ysgolion yn defnyddio data perfformiad fel mater o drefn yn effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae dangosfyrddau Power BI a'r system gwybodaeth reoli newydd ar gyfer ysgolion yn galluogi athrawon ac arweinwyr i gael mynediad at ddata amser real ar bresenoldeb, gwaharddiadau a dilyniant.

**Cymorth ar gyfer y Gymraeg ac Addysgu Dwyieithog**

- Gwnaed cynnydd da yn ehangu capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg trwy ddatblygu Gwasanaeth Trochi yn y Gymraeg Taith Iaith, gan gefnogi disgyblion sy'n pontio i leoliadau cyfrwng Cymraeg. Trefnwyd hefyd bod cyrsiau byr Cymraeg yn y Cartref ar gael i rieni / gwarcheidwaid i gefnogi dysgu dwyieithog ar yr aelwyd.
- Mae Estyn wedi amlygu arfer da o ran datblygu medrau llafaredd Cymraeg, ac estynnwyd gwahoddiad i un ysgol ysgrifennu astudiaeth achos arfer gorau ( Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn).

**Cydweithio a Rhannu Arfer Da**

- Mae fforymau tymhorol penaethiaid a dirprwy benaethiaid yn canolbwyntio ar themâu addysgu a dysgu allweddol fel mater o drefn — hunanwerthuso, asesu, cwricwlwm ac addysgeg.
- Mae fforymau cynradd ac uwchradd yn defnyddio canfyddiadau arolygu Estyn i rannu arfer da a mynd i'r afael â meysydd gwella cyffredin. Er enghraifft, yn ddiweddar, rhannodd Ysgol Rhydywaun ei hastudiaethau achos arfer gorau cadarnhaol ar ei darpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen a llafar disgyblion ar ôl ei harolygiad diweddar gan Estyn.
- Mae cydweithio ar draws gwasanaethau yn sicrhau bod dysgu proffesiynol, cynhwysiant a chymorth lles cydgysylltiedig yn effeithio'n uniongyrchol ar arfer ystafell ddosbarth ac yn dileu rhwystrau rhag dysgu.

**Tystiolaeth o Effaith a Deilliannau**

- Llwyddodd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i ddarparu a gwerthuso blwyddyn 3 Prosiect Iaith y Blynyddoedd Cynnar, a chyflawnwyd deilliannau cadarnhaol.
- Mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn dangos eu bod yn cyd-fynd â deilliannau Estyn sy'n gwella, ac nid yw 96.4% o ysgolion mewn categori gweithgarwch statudol.
- Deilliannau TGAU a Safon Uwch gwell (data haf 2025 heb ei wirio) ar lawer o fesurau, gyda'r bwlch yn culhau rhwng disgyblion RhCT, a setiau data Cymru gyfan.



Bydd angen i Flaenoriaeth Strategol 2 adeiladu ar feysydd a nodwyd i'w gwella:

- Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yn cael ei ddatblygu'n gadarn ar draws pob un o'i leoliadau.
- Parhau i ddatblygu, gwerthuso ac esblygu modelau gwella ysgolion a fframweithiau perfformio newydd yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau bod ysgolion yn dod yn ysgolion hunanwella ac yn llai dibynnol ar gymorth estynedig neu gymorth ymyrraeth statudol i sicrhau gwelliant.
- Cefnogi ysgolion i hunanwerthuso a chyflwyno arferion gwella ysgolion cadarn yn effeithiol, sy'n sicrhau dilyniant cryf disgyblion ac yn culhau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Cefnogi ysgolion uwchradd i hunanwerthuso'n effeithiol a gwella safonau addysgu ac asesu ymhellach.
- Gwneud yn siŵr fod ysgolion cynradd yn defnyddio strategaethau hunanwerthuso cadarn i ategu a sicrhau arferion addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel.
- Sicrhau bod ysgolion cynradd yn hunanwerthuso arferion yn effeithiol i ymgorffori annibyniaeth disgyblion yn systematig.
- Sicrhau bod ysgolion yn canolbwyntio ar wella datblygiad medrau disgyblion.
- Gwella deilliannau Cyfnod Allweddol 4 a 5 ymhellach ar bob dangosydd perfformiad.

## Blaenoriaeth Strategol 2: Camau Strategol Lefel Uchel

Bydd Blaenoriaeth Strategol 2 yn cyd-fynd yn agos â Chanllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (2024) Llywodraeth Cymru i sicrhau bod addysgu, dysgu ac asesu yn cael eu datblygu'n systematig. Bydd hefyd yn cynorthwyo arweinwyr i ymgymryd â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (2019) a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (2023). Dylai dysgu proffesiynol fod yn gydweithredol, yn seiliedig ar ymholi, a chanolbwyntio ar wella arfer addysgeg ac asesu ystafell ddosbarth.

Dyma'r camau a nodwyd i gyflawni'r flaenoriaeth hon:

- Sicrhau bod y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir yn cael ei weithredu'n gyson mewn lleoliadau darparwyr addysg cofrestredig.
- Datblygu cynlluniau strategol effeithiol ar draws cyfarwyddiaethau sydd wedi'u hanelu at wella darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gwaith amlasiantaethol effeithiol.
- Datblygu dealltwriaeth gadarn ym mhob ysgol o beth mae addysgu a dysgu effeithiol yn ei olygu.
- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn gwerthuso effeithiolrwydd eu darpariaeth, ansawdd yr addysgu a'r effaith ar gynnydd disgyblion yn gyson.
- Hwyluso cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd ar gyfer yr holl ymarferwyr ysgolion i wella'u dealltwriaeth a'u defnydd o arferion asesu ffurfiannol effeithiol.
- Cefnogi a gwerthuso effaith cydweithrediadau, yn fertigol ac yn llorweddol, i hyrwyddo a datblygu system hunanwella sy'n rhoi cynnydd disgyblion yn ganolog i'r broses.
- Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion newydd yn gwerthuso'r cynnig cwricwlwm, yn bodloni canllawiau gorfodol a statudol Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi ffocws diwyro ar gaffaeliad disgyblion o fedrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg.
- Datblygu a chefnogi cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg, gan ymestyn dysgu Cymraeg ymhellach ar draws pob un o'n hysgolion.
- Datblygu strategaeth ddigidol yr awdurdod lleol i ymestyn addysgu a dysgu a datblygiad medrau ymhellach ar draws pob sefydliad addysgol.
- Sicrhau cynllunio pontio cadarn ac effeithiol gyda ffocws ar ddatblygiad a dilyniant medrau ar draws y cwricwlwm.
- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau a gweithdrefnau asesu effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion a darparu cymorth amserol lle mae angen.
- Sicrhau bod gan ysgolion bolisïau a strategaethau effeithiol ar waith i hyrwyddo tegwch a lliniaru effaith tlodi neu rwystrau eraill rhag dysgu ar gyflawniad addysgol ac ymgysylltu ag addysg.
- Cefnogi gwerthuso effaith y ddarpariaeth ysgolion ar ADY, disgyblion bregus a mwy abl a thalentog yn effeithiol, gan nodi a blaenoriaethu meysydd i'w gwella a'u gwerthuso ymhellach.

Bydd gweithredu'r blaenoriaethau hyn yn strategol yn sicrhau cysondeb mewn asesu ffurfiannol, alinio gwell o ran arferion addysgu a dysgu gyda Chwricwlwm i Gymru a chydweithio proffesiynol estynedig ar draws ysgolion a chlystyrau.

## Blaenoriaeth Strategol 2: Deilliannau rydym eisiau eu gweld erbyn 2030

- Mae arolygiadau Estyn yn yr ysgol yn y dyfodol yn cynnwys astudiaethau achos a chipluniau sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd yr arferion addysgu, dysgu ac asesu.
- Mae arolygiadau Estyn mewn ysgolion yn y dyfodol yn cynnwys astudiaethau achos a chipluniau sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd datblygiad medrau ac annibyniaeth disgyblion.
- Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy) yn cael argymhelliad ar gyfer datblygu sgiliau pan gânt eu harolygu gan Estyn.
- Nid yw bron pob un (95% neu fwy) o ysgolion mewn categori statudol neu angen cymorth estynedig.
- Nid oes angen cymorth mwyach ar y rhan fwyaf (90% neu fwy) o ysgolion yr oedd angen cymorth estynedig arnynt (ac nad ydynt mewn categori statudol) ar ôl dau dymor o ymyrraeth.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy) yn dangos gwelliant ar draws holl fesurau deilliannau Cyfnod Allweddol 4.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy) yn dangos gwelliant ar draws holl ddeilliannau Cyfnod Allweddol 5 ar draws yr holl fesurau.
- Mae'r bwlch rhwng deilliannau Cyfnod Allweddol 4 RhCT a Chymru gyfan yn dangos gwelliant ar draws y rhan fwyaf o fesurau, gan gynnwys grwpiau bregus (e.e. disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion ag ADY, plant sy'n derbyn gofal).
- Mae'r bwlch rhwng deilliannau Cyfnod Allweddol 5 RhCT a Chymru gyfan yn dangos gwelliant ar draws y rhan fwyaf o fesurau, gan gynnwys grwpiau bregus (e.e. disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion ag ADY, plant sy'n derbyn gofal).

## Blaenoriaeth Strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan

## Rhesymeg ar gyfer Blaenoriaethu

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac yn ymgorffori arferion cynhwysol ar draws ein hysgolion a'n lleoliadau addysgol. Er gwaethaf hyn, mae ein data a'n hadborth gan randdeiliaid yn dangos bod pwysau digynsail yn y system oherwydd niferoedd cynyddol o ddisgyblion ag anghenion cymhleth, yn erbyn cefndir o heriau sylweddol o ran y gyllideb a'r gweithlu. Mae gofynion ar wasanaethau canolog a Chydlynwyr ADY wedi cynyddu'n sylweddol, a bu twf sylweddol yn nifer

apeliadau Tribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn yr awdurdod lleol. Nid yw datblygu dulliau partneriaeth a datrys anghydfod hynod effeithiol erioed wedi bod yn bwysicach wrth i rieni / gwarcheidwaid ymdrin â system ADY gymhleth.

O ystyried heriau cenedlaethol, comisiynodd Llywodraeth Cymru [Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol](#) yn ddiweddar. Ers ei gyhoeddi, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi amlinellu pum blaenoriaeth ar gyfer cam nesaf diwygio ADY, sef:

- Egluro pwy sy'n cael cymorth, a sut mae disgyblion yn cael cymorth
- Sicrhau cysondeb cenedlaethol
- Gwella cymorth ar gyfer teuluoedd
- Cryfhau integreiddio amlasiantaethol
- Datblygu addysg ddwyieithog a chynhwysol

Mae gwelliannau sylweddol yn ansawdd polisïau ADY, prosesau a darpariaeth sicrhau ansawdd, wedi bod yn amlwg yn ystod y pedair blynedd diwethaf, a gwnaed defnydd effeithiol o gyllid grant ADY. Fodd bynnag, mae adborth rhanddeiliaid yn dweud wrthym fod angen symleiddio ein systemau a'n prosesau ymhellach a bod angen platfformau digidol mwy datblygedig i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a baich gwaith llai.

Mae arweinwyr a staff mewn llawer o ysgolion a lleoliadau wedi gwneud cynnydd da yn datblygu diwylliannau ac arferion cynhwysol, ond mae gwaith i'w wneud o hyd mewn datblygu gweledigaeth ysgolion ar gyfer cynhwysiant ymhellach a sicrhau bod addysgu a dysgu'n diwallu anghenion pob disgybl yn effeithiol, ac yn lleihau'r galw am leoliadau arbenigol. Er bod arfer cynhwysol rhagorol mewn llawer o'n hysgolion, byddai mwy o waith ar wella medrau'r gweithlu i wella addysgu a dysgu ar gyfer pob un o'r disgyblion yn fuddiol fel bod mwy o gysondeb ar draws ein hysgolion.

Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth ADY, ond mae'r galw am leoliadau arbenigol yn ddigynsail. Mae adborth Estyn ar ein darpariaethau dosbarth cymorth dysgu yn gyson dda, a cheir adborth sy'n gynyddol gadarnhaol o ran dulliau cynhwysiant prif ffrwd sydd wedi cael ei rannu'n eang a'i ddathlu. Yn wir, nododd ein hadborth ein hunain i Estyn yn ystod ein harolygiad yn 2023, fod darpariaeth ar gyfer ADY yn gryf, ond bod pwysau ar draws y system, yn lleol ac yn genedlaethol, yn parhau.

Bu rhywfaint o dwf yn nifer y disgyblion sydd angen cynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan ysgol neu'r awdurdod lleol, ond mae niferoedd yn parhau i fod yn gymharol isel o gymharu â nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY o dan yr hen system AAA.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran prosesau a gweithdrefnau'r blynyddoedd cynnar, ac o ran darparu cymorth pontio arbenigol ar gyfer disgyblion sydd angen ymyrraeth a chymorth cynnar. Mae angen gwneud mwy o waith gydag asiantaethau ehangach i sicrhau cymorth amserol ar gyfer plant iau ag ADY sy'n dod i'r amlwg neu ADY a nodwyd trwy gydweithio gwell â sefydliadau iechyd a'r trydydd sector. Ehangwyd

darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, ond mae'n debygol y bydd angen mwy o dwf am hyd y cynllun.

Er y bu enillion bach a graddol mewn cyfraddau presenoldeb yn amlwg ar draws y system, nid yw hyn wedi bod yn gyson ar draws pob ysgol, ac mae angen gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhellach, yn enwedig ar lefel uwchradd. Mae presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae adolygiad thematig Estyn ynghylch Gwella Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd yn amlygu'r angen i awdurdodau lleol weithio gyda rhieni a gwarcheidwaid i ddeall pwysigrwydd presenoldeb da, a rhoi her a chymorth rheolaidd ac effeithiol i ysgolion i wella presenoldeb disgyblion a helpu gwerthuso effaith eu gwaith.

Mae pryderon ynghylch diffyg ymgysylltiad rhai disgyblion ag addysg oherwydd eu hanghenion iechyd meddwl, wedi creu gofynion cynyddol ar wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, ac mae twf sylweddol mewn disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn enwedig ym Mlynyddoedd 10 ac 11, wedi bod yn amlwg.

Mae gwaharddiadau wedi dangos cynnydd sylweddol yn y cyfnod ar ôl y pandemig, ond roedd gostyngiad sylweddol yn amlwg mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn ystod 2024/25. Mae angen adeiladu ar y cynnydd hwn, a dangoswyd y gwelliant mwyaf arwyddocaol yn y drefn o ran rhannu arfer gorau gan yr ysgolion. Mae adolygiad thematig Estyn ynghylch Meithrin Parch ar y Ddwy Ochr – Hyrwyddo Ymddygiadau Cadarnhaol mewn Ysgolion Uwchradd yn amlygu'r heriau ar draws y system Addysg yng Nghymru, a phwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol. Amlygwyd bod gan yr ysgolion mwyaf llwyddiannus ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion a'u staff, arweinyddiaeth gref o ran lles, a gefnogir gan bolisïau ymddygiad effeithiol sy'n cael eu gweithredu'n gyson gan staff a dysgu proffesiynol rheolaidd ar gyfer athrawon. Amlygodd Estyn fod ymrwymiad cryf i ddulliau adferol a dulliau sy'n ystyriol o drawma i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion yn aml yn sail i arfer effeithiol, ac ymgysylltu effeithiol â rhieni, gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach.

Mae ein data lleol yn amlygu amrywiad sylweddol ar draws ysgolion, ac nid yw bron i hanner ein hysgolion cynradd yn gwahardd unrhyw ddisgyblion. Yn yr un modd, ar lefel uwchradd, mae arfer rhagorol mewn rhai lleoliadau, ac mae rhai ysgolion wedi llwyddo i ostwng eu cyfraddau gwaharddiadau trwy fabwysiadu cynnig cwricwlwm mwy pwrpasol a chryfhau eu dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad disgyblion. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Hawliau, Parch, Cydraddoldeb yn gosod gwaith gwrthfwlio fel rhan o ymrwymiad ehangach i hawliau a chydraddoldeb plant. Mae angen strategaethau gwrthfwlio effeithiol i sicrhau hawl pob plentyn i gael addysg mewn lleoliad diogel a pharchus, yn enwedig o ystyried effaith andwyol tra hysbys y cyfryngau cymdeithasol ar iechyd meddwl a lles disgyblion, ac adroddiad thematig Estyn ynghylch Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Nid yw data bwlio yn amlygu materion arwyddocaol, ond mae pryderon na fydd hyn efallai'n adlewyrchu materion a brofwyd yn yr ysgol yn gywir, oherwydd na fydd disgyblion yn dymuno datgelu rhai o'r heriau a wynebwyd.

Bydd Blaenoriaeth Strategol 3 yn adeiladu ar lwyddiannau’r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25 sy’n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Amlygodd arolygiad Estyn o’r awdurdod lleol fod cymorth ar gyfer ADY yn gryf a bod defnydd effeithiol o ddata a gwybodaeth a oedd yn adlewyrchu anghenion cymunedol ac yn hyrwyddo darpariaeth deg.
- Mae deilliannau arolygiad Estyn yn awgrymu bod darpariaeth ysgolion ar gyfer lles yn effeithiol, ar y cyfan, a bod argymhellion ar gyfer gwella yn ymwneud ag ymddygiad a lles yn brin.
- Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth ADY ac rydym wedi agor tair darpariaeth dosbarth cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg yn y tair blynedd ddiwethaf. Agorwyd pum dosbarth cymorth dysgu (DCD) arall yn 2025, yn cynnwys canolfan loeren newydd y blynyddoedd cynnar gyfer Ysgol Hen Felin, ac mae ysgol ADY newydd wrthi’n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd (disgwylir y bydd yn agor ym mis Medi 2026). Mae pob ysgol arbennig hefyd wedi derbyn buddsoddiad i wella ac/neu ymestyn cyfleusterau.
- Mae adroddiadau arolygu ysgolion yn gyffredinol yn gwneud sylwadau ffafriol iawn ar ein darpariaeth DCD, sydd, ar y cyfan, yn amlygu strategaethau addysgu ac unigoledig gwahaniaethol o ansawdd uchel, dealltwriaeth glir o anghenion disgyblion, a monitro cynnydd mewn dysgu yn effeithiol. Nodwyd hefyd fod disgyblion mewn dosbarthiadau cymorth dysgu yn gwneud cynnydd yn gymesur â’u cyfoedion yn y brif ffrwd, neu’n well mewn rhai lleoliadau.
- Mae nifer o’n lleoliadau wedi derbyn sylwadau ffafriol iawn gan Estyn ar ADY. Gofynnwyd i Ysgol Hen Felin ysgrifennu astudiaeth achos arfer orau ar hyb lles yr ysgol a’i rôl hanfodol yn ymestyn ymgysylltu â’r gymuned ac yn hyrwyddo lles cyffredinol disgyblion, rhieni a staff. Canmolwyd Ysgol Rhydywaun gan Estyn hefyd am ei dulliau ysgol gyfan hynod effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY a chafodd Canolfan Addysg Tai, ein huned cyfeirio disgyblion cynradd, adroddiad arolygu eithriadol o dda.
- Trwy ddefnyddio cyllid grant yn effeithiol, mae staff addysgu wedi mabwysiadu dulliau sy’n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar anogaeth yn gynyddol, gan wella ymgysylltiad ac ymddygiad yn ein hysgolion.
- Ers 2020, mae’r awdurdod lleol wedi buddsoddi bron i £5M yn narpariaethau cam 4, gan alluogi ysgolion i gyflwyno addysgu mwy cynhwysol a phersonoledig ar gyfer disgyblion â heriau ymddygiadol neu emosiynol. Mae hyn wedi arwain at welliant o ran gwaharddiadau, presenoldeb, ymgysylltu a chymwysterau disgyblion ar gyfer grwpiau targedig o ddisgyblion.
- Roedd cyfraddau gwaharddiadau ar ôl y pandemig yn dangos cynnydd cyflym, ond roedd gwelliant yn amlwg yn 2024-25 gyda 51.7% o ostyngiad mewn gwaharddiadau parhaol, a 23.5% o ostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd ar draws ysgolion.
- Er bod presenoldeb yn y sector cynradd ac uwchradd yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, mae presenoldeb yn y sector cynradd wedi cynyddu 1.3 pwynt canran rhwng 2022/23 a 2024/25, a phresenoldeb yn y sector uwchradd wedi cynyddu 2.2 pwynt canran yn yr un cyfnod. Mae presenoldeb yn y sector uwchradd wedi perfformio’n well na chynnydd cyfartalog Cymru, sef 1.5 pwynt canran yn yr un cyfnod amser.

- Mae dulliau ymyrraeth gynnar effeithiol sy'n cynnwys cymorth allymestyn gan ein hysgolion arbennig wedi cyflawni deilliannau cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar.
- Ymgysylltodd cyfanswm o 180 o ddisgyblion Blwyddyn 11 a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, yn gadarnhaol â'r Prosiect Golau Gwyrdd yn 2024/25 (cynnydd o 43 o gymharu â 2023/24) ac maent wedi sicrhau cynlluniau ôl-16 cadarnhaol cyn gadael yr ysgol.
- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (34 o leoliadau ysgol hyd yma) sydd wedi gwella capasiti ysgolion i gryfhau eu strategaethau ymgysylltu a'u cymorth ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Cynhaliwyd prosiectau dysgu teuluol helaeth ar draws llawer o ysgolion, gan ddefnyddio cyllid grant lluosog, gan arwain at welliannau sylweddol mewn mentrau ysgolion bro ar draws y fwrdeistref sirol.
- Dechreuodd cynllun prentisiaeth iau peilot yn 2025 yng Ngholeg Y Cymoedd, yn cynnwys 34 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 o bump o ysgolion Rhondda. Mae'r adborth cynnar yn ffafriol iawn.
- Mae ein darpariaeth clwb brecwast wedi cael ei digideiddio ac yn cynnig darpariaeth ddyddiol ar bob safle ysgol gynradd ac ysgol arbennig.
- Cwblhawyd cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd ym mis Ebrill 2024, chwe mis ynghynt na'r disgwyl, gyda buddsoddiad yn fwy nag £8M i uwchraddio cyfleusterau cegin a bwyta.
- Cyflwynwyd darpariaeth Bwyd a Hwyl hynod lwyddiannus mewn 14 ysgol dros gyfnod yr haf (2025) ar gyfer teuluoedd mewn angen.
- Mae cyfleusterau Big Bocs Bwyd wedi cael eu sefydlu ar 10 safle ysgol, gan ddarparu cyfleuster siop talu fel y gallwch ar gyfer teuluoedd mewn cymunedau ysgolion.
- Yn unol â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles o fewn Cwricwlwm i Gymru, rydym wedi lansio bwydlen newydd sydd wedi'i hanelu at gefnogi arferion bwyta'n iach.





Bydd angen i Flaenoriaeth Strategol 3 adeiladu ar feysydd i'w gwella a nodwyd:

- Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth ddysgu ychwanegol, mae pwysau capasiti sylweddol yn y sector ADY yn parhau, sy'n awgrymu bod angen cynllunio strategol cryfach yn y tymor canolig i'r tymor hir o ran darpariaeth ADY.
- Mae angen adolygu a diwygio dogfennau arweiniad i adlewyrchu'r holl ddogfennau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n ymwneud â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith.
- O ystyried yr adborth canfyddiadau ar ansawdd gwasanaethau a chymorth ar gyfer prosesau ADY statudol a chymorth ymddygiad, mae angen cryfhau prosesau statudol a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o fewn ein gwasanaethau, ein hysgolion a'n darpariaethau arbenigol.
- Parhau i werthuso'r ddarpariaeth cam 4, i sicrhau bod y llwybrau amgen a'r cymorth a gynigir yn cydymffurfio â pholisïau, yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni deilliannau gwell.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen gwella'r ymgysylltiad mewn tiwtora unigol a thiwtora mewn grŵp, ac mae angen alinio polisïau a phrosesau yn well i sicrhau cysondeb a chyflwyno gwasanaethau effeithlon.
- Mae cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae cyfraddau fesul 1000 yn fwy na chyfartaledd Cymru gyfan am y tro cyntaf yn 2025.
- Mae angen gwella data gwaharddiadau a phresenoldeb ymhellach fel bod argymhellion Estyn yn cael eu bodloni, a deilliannau ar gyfer disgyblion bregus yn well.

- Mae nifer yr achosion lle mae disgyblion yn dangos anghenion cymhleth yn y blynyddoedd cynnar yn parhau i dyfu, gan arwain at bwysau sylweddol o ran capasiti mewn lleoliadau prif ffrwd.
- Mae rhieni / gwarcheidwaid yn parhau i brofi anawsterau yn ymdrin â system ADY gymhleth ac yn ei chael yn heriol manteisio ar gyngor ac arweiniad amserol.
- Mae angen sicrhau bod capasiti gweithlu arbenigol digonol, yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth ein disgyblion, eu teuluoedd a'u hysgolion.
- Er bod gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau gweithredu gwrth-hiliol, mae angen mwy o ddatblygiadau strategol i ddathlu amrywiaeth.
- Sicrhau bod polisïau a strategaethau gwrthfwlio statudol yn effeithiol ac yn cadw disgyblion yn ddiogel.
- Mae angen datblygu strategaeth hygyrchedd newydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol nawr.
- Mae angen strategaeth presenoldeb, diogelu a lles sydd wedi'i hanelu at wella lles ein disgyblion, yn cynnwys grwpiau bregus, a'n gweithlu.
- Dylai fod gan bob ysgol strategaeth gref ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd, sy'n hyrwyddo gwaith partneriaeth effeithiol gyda theuluoedd a chymunedau sy'n wynebu heriau.

## Blaenoriaeth Strategol 3: Camau Strategol Lefel Uchel

Dylai pob un o'r plant a'r bobl ifanc gael eu paratoi'n dda ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol, ac mae hyn yn un o ddyheadau clir Cwricwlwm i Gymru; gan eu galluogi i fod yn uchelgeisiol, yn fedrus, yn foesegol ac yn iach gyda chymorth hygyrch ar gyfer eu gwarcheidwaid, eu perthnasoedd, eu hiechyd a'u lles. Mae'n hanfodol fod tegwch mewn addysg fel bod pob un o'r disgyblion yn cael eu cefnogi mewn ysgolion cynhwysol i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial. Er mwyn cyflawni hyn, dylid cefnogi disgyblion yn dda i ddatblygu ystod eang o sgiliau, profiadau a thueddiadau sy'n eu galluogi i ffynnu a llwyddo.

Dyma'r camau a nodwyd i gyflawni'r flaenoriaeth hon:

- Cynnal adolygiad strategol o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), fel bod hyn yn llywio buddsoddiad strategol dros y pedair blynedd nesaf ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ADY yn ddigonol i ddiwallu anghenion.
- Darparu cymorth effeithiol o ran gwelliant a chynhwysiant ysgolion ar gyfer ysgolion i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol o ansawdd uchel, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth a'r Cod ADY.
- Datblygu dulliau ymyrraeth gynnar ac ataliol i gynorthwyo disgyblion ag ADY sy'n dod i'r amlwg, a lle ceir llawer o achosion o ADY.
- Diweddaru canllawiau'r awdurdod lleol i sicrhau eglurder a thryloywder gwell ynghylch gwneud penderfyniadau a'r diffiniad o 'anhawster sydd gryn dipyn yn fwy mewn dysgu' a darpariaeth sydd 'ar gael yn gyffredinol'.

- Gwella'r mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad ymhellach ar gyfer teuluoedd plant ag ADY, a chymorth effeithiol i ddatrys anghydfod pan fydd materion yn dod i'r amlwg.
- Mabwysiadu dull ar draws yr awdurdod i hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol rhwng teuluoedd ac ysgolion.
- Parhau i gydweithio â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion ac ysgolion i hyrwyddo addysg gynhwysol, targedu cymorth lle mae angen a chryfhau cydlynu gwasanaethau cymorth i sicrhau addysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'r disgyblion.
- Cryfhau'r continwwm cymorth a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o fewn ein gwasanaethau, ein hysgolion a'n darpariaethau arbenigol.
- Datblygu strategaeth hygyrchedd tair blynedd newydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- Defnyddio dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, cymorth arbenigol a chyllid grant i ddatblygu capasiti ysgolion i ddiwallu angen trwy ddulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth (e.e. cwnsela yn yr ysgol; dulliau adferol, anogaeth ac/neu sy'n ystyriol o drawma).
- Sicrhau bod dull strategol cydlynus i gynorthwyo disgyblion sy'n byw mewn tlodi fel bod rhwystrau'n cael eu goresgyn a'r bwlch cyrhaeddiad yn cau.
- Cyflwyno'r Prosiect Golau Gwyrdd yn barhaus ac ehangu'r cyrhaeddiad.
- Ehangu argaeledd llwybrau amgen a chynlluniau prentisiaeth i gefnogi pobl ifanc fregus (e.e. disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal, disgyblion sy'n manteisio ar gymorth Cyfiawnder Ieuenctid) sydd angen cynnig prif ffrwd fwy pwrpasol, gan gynnwys ehangu'r cynllun prentisiaeth iau mewn partneriaeth â Choleg Y Cymoedd.
- Datblygu'r model Ysgol Rithwir a'r dulliau strategol a fabwysiadwyd i wella cynnydd a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal ymhellach.
- Cydweithio er mwyn cynnal a gwella'r gyfradd y mae plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Hwyluso a sicrhau addysg a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n hysbys i'r llwybr camfanteisio.
- Sicrhau bod cynhalwyr ifainc yn derbyn cyngor a chymorth mewn modd amserol.
- Sicrhau bod arweiniad effeithiol ar yrfaoedd mewn ysgolion a bod y cynnig ôl-16 yn hygyrch ac yn cael ei hysbysebu'n eang er mwyn i ddisgyblion allu gwneud dewisiadau gwybodus am yr ysgol, y coleg, cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.
- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg bellach, addysg uwch, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr fel bod y cynnig ôl-16 yn darparu dewis, ehangder a chyfle, ac yn adlewyrchu gofynion disgyblion.
- Cynnal adolygiad trylwyr o brosesau tiwtora unigol a thiwtora mewn grŵp fel bod y cynnig yn gost effeithiol, yn effeithlon ac yn diwallu anghenion disgyblion.
- Cryfhau polisïau, prosesau a darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

- Sicrhau bod capasiti gweithlu arbenigol digonol a modelau cyflwyno gwasanaethau effeithlon i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth ein disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Darparu cymorth effeithiol i ysgolion ar ddatblygu diwylliannau ac arferion gwrth-hiliol a gwrthfwlio cadarnhaol mewn ysgolion.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwbl gyfarwydd â'r ddyletswydd i adnabod pryderon am ddiogelu, a rhoi gwybod amdanynt.
- Datblygu strategaeth presenoldeb, diogelu a lles sydd wedi'i hanelu at wella deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion, yn cynnwys grwpiau bregus, a'n gweithlu.
- Sicrhau bod gan bob ysgol strategaeth gadarn ar bresenoldeb sy'n cysylltu ag agweddau eraill ar waith ysgolion (e.e. strategaethau lles, ymgysylltu â'r gymuned, effaith yr addysgu a'r cwricwlwm, a gweithgareddau allgyrsiol).

## Blaenoriaeth Strategol 3: Deilliannau rydym eisiau eu gweld erbyn 2030

- 15% o ostyngiad yn nifer yr achosion o waharddiadau cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion.
- 15% o ostyngiad yn nifer y gwaharddiadau parhaol.
- 10% o ostyngiad yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer grwpiau disgyblion bregus.
- 2% o welliant yng nghyfraddau presenoldeb ysgolion cynradd.
- 3% o welliant yng nghyfraddau presenoldeb ysgolion uwchradd.
- 8% o ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dangos absenoldeb parhaus o'r ysgol.
- Mae'r bwlch rhwng presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn lleihau 2%.
- Mae'r bwlch rhwng data presenoldeb RhCT a Chymru gyfan yn dangos gwelliant ar draws mesurau, gan gynnwys grwpiau bregus (e.e. disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ADY, plant sy'n derbyn gofal).
- Cyflenwad digonol o leoedd mewn ysgolion arbennig a dosbarthiadau cymorth dysgu i ddiwallu'r angen.
- Mae nifer y disgyblion nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth yn gostwng.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy) swyddog dynodedig neu ar y cyd ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd.
- Mae llawer o ysgolion (70% neu fwy) yn ymgymryd â gweithgarwch dysgu teuluoedd o leiaf unwaith y tymor.
- Mae cyfraddau'r disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref fesul 1,000 yn disgyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Mae dangosyddion perfformiad Cynlluniau Addysg Personol (plant sy'n derbyn gofal) yn dangos 5% o welliant mewn cyfraddau cydymffurfio â graddfeydd amser.
- Mae dangosyddion perfformiad Cynlluniau Datblygu Unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn dangos 5% o welliant mewn cyfraddau cydymffurfio â graddfeydd amser.

- Cofnodwyd 10% o ostyngiad yn nifer yr apeliadau a gofnodwyd gyda Thribiwnlys Addysg Cymru.

**Blaenoriaeth Strategol 4: Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu**

**Blaenoriaeth Strategol 4: Rhesymeg ar gyfer Blaenoriaethu**

Mae’r Cyngor wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i foderneiddio’r ystâd ysgolion i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn unol â strategaethau cenedlaethol a lleol, a rhagori arnynt, lle bo modd. Mae ganddo Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy uchelgeisiol, a gefnogir gan fuddsoddiad seilwaith hirdymor y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw creu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, sy’n dechnolegol ddatblygedig, yn gynaliadwy ac yn effeithlon o ran ynni, sy’n cael eu hintegreiddio â chymunedau lleol.












Uchelgais drosfwaol y Cyngor yw cynyddu nifer y disgyblion sy’n elwa ar y rhaglen uchelgeisiol hon i foderneiddio ysgolion fel eu bod yn elwa ar amgylcheddau dysgu

cynaliadwy, hygyrch a chryn dipyn yn well. Nod y rhaglen hefyd yw hyrwyddo twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ADY, ac mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu Ysgolion Bro, cydleoli gwasanaethau allweddol ar safleoedd ysgolion ac ymgysylltu cryfach â rhieni a gwarcheidwaid y tu allan i oriau traddodiadol. Mae hyn yn rhan annatod o bolisi Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol i sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. Fel y cyfeirir ym mlaenoriaeth strategol 2, bu datblygiadau strategol effeithiol yn ymwneud ag ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, ond mae cyfle o hyd i adeiladu ar y gwaith hwn a chryfhau dulliau partneriaeth yn sylweddol, a chydleoli gwasanaethau ar safleoedd ysgolion.

Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf y Cyngor yn parhau i wella ansawdd adeiladau ysgolion, lleihau capasiti dros ben, mynd i'r afael â chostau cynnal a chadw, a gwella cynaliadwyedd. Er y gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu cyfleusterau addysgol o'r radd flaenaf ar draws y dirwedd yn RhCT, mae gwaith i'w wneud o hyd i foderneiddio ein hystâd ysgolion ymhellach a bwrw ymlaen â'r agenda ysgolion bro.

Mae Teithio Llesol yn ein hysgolion, wedi'i gefnogi gan gyllid gan y llywodraeth lle mae ar gael, a chan sefydliadau fel Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, hefyd yn ffocws yn y cynllun newydd mewn partneriaeth â meysydd gwasanaethau allweddol eraill fel bod ysgolion yn annog disgyblion a staff i gerdded, beicio, neu fynd ar sgwter yn ddiogel i'r ysgol, a lleihau dibyniaeth ar geir, gan gyfrannu at iechyd a lles unigolion, a nodau amgylcheddol ehangach.




Bydd Blaenoriaeth Strategol 4 yn adeiladu ar lwyddiannau'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25 sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi cyflawni £175M gwerth o fuddsoddiad, yn cynnwys agor saith ysgol newydd dros gyfnod o 18 mis: Ysgol Gynradd Penygawsi, Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Ysgol Gynradd Pont-y-clun, Ysgol Afon Wen, Ysgol Bro Taf, Ysgol Awel Taf ac Ysgol Llyn Y Forwyn. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi agor darpariaeth 6ed dosbarth o'r radd flaenaf

yn Ysgol Gyfun Bryn Celynnog. Mae'r rhaglen wedi cyflawni buddion anferthol, yn cynnwys: capasiti gwell ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg; ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd addysgu cyffredinol ac arbenigol o ansawdd uchel; adeiladau ysgol sy'n effeithlon o ran ynni ac yn hynod hygyrch; mannau Shared Heart; ardaloedd gemau amlddefnydd; technolegau digidol modern hygyrch; a mannau dysgu hyblyg sy'n hyrwyddo ymagweddau arloesol at addysgu a dysgu. Mae hyn wedi lleihau: lleoedd dros ben mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg; ôl-groniad o ran costau cynnal a chadw; llety o ansawdd gwael; ac adeiladau ysgol anhygyrch. Mae wedi cael effaith sylweddol ar ddisgyblion a'r gweithlu addysg. Er enghraifft, yn ddiweddar, llwyddodd Bryn Celynnog i sicrhau deilliannau Safon Uwch rhagorol (data heb ei wirio haf 2025).

- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer Rhaglen Dreigl 9 mlynedd o gyllid trwy ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n gwneud cyfanswm o £414M hyd at, ac yn cynnwys, 2033. Mae'r rhaglen hon yn adeiladu ar raglen fuddsoddi helaeth y Cyngor mewn ysgolion ers dechrau Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.
- Mae gwaith wedi dechrau ar £62M gwerth o fuddsoddiad cynlluniedig ar gyfer dwy ysgol newydd, sef ysgol ADY newydd yng Nghwm Clydach ac ysgol gynradd newydd ar gyfer Glyn-coch.
- Bydd cyfleusterau newydd ar gyfer llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu hefyd, yn cynnwys: Ysgol Cwm Rhondda (ysgol uwchradd); Ysgol Llanhari (ysgol bob oed); mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn gysylltiedig ag agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Llanilid; ac mae ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer Penrhys yn datblygu, hefyd.
- Mae Grant Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar wedi sicrhau buddsoddiad o £3.5M dros y tair blynedd ddiwethaf, yn cynnwys pedwar lleoliad gofal plant newydd (dau ohonynt yn rhai cyfrwng Cymraeg) ac £1.4M wedi'i ddarparu mewn 150 o grantiau bach.
- Mae'r Grant Cyfalaf Ysgolion Bro wedi darparu buddsoddiad o £3M ac wedi darparu cyfleusterau cymunedol newydd ar safleoedd pedair ysgol. Sicrhawyd £1.65M yn fwy ym mlwyddyn academaidd 2025/26 ar gyfer naw prosiect arall.
- Gyda £1.6M yn fwy wedi'i sicrhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd cyfanswm y grant cyfalaf ADY wedi darparu buddsoddiad o £6.5M dros gyfnod o bedair blynedd.
- Darparwyd cyfanswm o £21.7M fel rhan o'r rhaglen buddsoddiad cyfalaf i gadw adeiladau 'yn ddiogel, yn ddi-ddos, ac yn gynnes'.
- Cyflawnwyd gwaith mawr wedi'i gynorthwyo'n wirfoddol, gan wneud cyfanswm o £3.2M.
- Mae datblygiadau ysgolion bro wedi symud ymlaen yn dda yn y tair blynedd ddiwethaf. Cynyddodd gweithdai teilwredig ar gyfer rhieni o 50% yn 2022 i 82% yn 2025, a nododd dros hanner yr ysgolion eu bod wedi blaenoriaethu datblygiadau cymunedol yn eu cynlluniau gwella ysgolion yn 2025. Cynigir gweithgareddau ar gyfer plant y tu allan i'r diwrnod ysgol yn y rhan fwyaf o ysgolion (90% neu fwy), ac mae 26% hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned yn 2025 (cynnydd o 18% er 2022). Fodd bynnag, nid yw cydleoli gwasanaethau ar safleoedd ysgolion wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd.
- Darparwyd arweiniad a hyfforddiant helaeth i ysgolion ar reoli risg a chydymffurfio, parhad busnes a chynllunio mewn argyfyngau.

- Lansiwyd Gwobr Eco-Ysgolion RhCT, ac mae 19 ysgol yn cymryd rhan yn weithredol. Mae cyfanswm o bedair ysgol wedi cwblhau'r wobr Efydd hyd yma.

Bydd angen i Flaenoriaeth Strategol 4 adeiladu ar y meysydd i'w gwella a nodwyd:

- Sicrhau bod y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus, a buddsoddiad cyfalaf yn ein hadeiladau ysgol fel eu bod yn aros yn ddiogel, yn ddi-ddos ac yn gynnes.
- Defnyddio cyllid grant Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn effeithiol fel bod hyn yn mynd i'r afael â blaenoriaethau i'w gwella yn ein CSCA a'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
- Sicrhau bod y buddsoddiad mewn darpariaeth ADY yn amserol ac yn mynd i'r afael ag anghenion lleol.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyfrannu tuag at yr agenda cymorth ac atal cynnar ar draws y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.
- Adeiladu ar y gwaith Ysgolion Bro rhagorol a wnaed hyd yma trwy wella ymgysylltiad â theuluoedd, y gymuned ac asiantaethau ar safleoedd ysgolion ymhellach.
- Sicrhau bod teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ar draws ysgolion, ac yn ysgogi llai o ddibyniaeth ar deithio mewn ceir.

## Blaenoriaeth Strategol 4: Camau Strategol Lefel Uchel

Dyma'r camau a nodwyd i gyflawni'r flaenoriaeth hon:

- Datblygu strategaeth trefniadaeth ysgolion 10 mlynedd i sicrhau bod gan y Cyngor y nifer gywir o ysgolion yn y lleoliadau cywir i gefnogi disgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY, eu teuluoedd a'u cymunedau.
- Cyflawni yn unol â deilliannau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a sicrhau cyflenwad digonol o leoedd yn y lleoliad cywir ar draws y fwrdeistref sirol.
- Cyflwyno rhaglen fuddsoddi dreigl naw blynedd y Cyngor, sef Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r broses ddylunio sy'n gysylltiedig â phrosiectau moderneiddio ysgolion.
- Sicrhau bod pob un o'r cynlluniau moderneiddio ysgolion a'r cynlluniau datblygu lleol yn cyd-fynd â thargedau a dyheadau uchelgeisiol ein CSCA, lle bo modd.
- Sicrhau bod y rhaglen cyfalaf cynnal a chadw yn cadw ystâd yr ysgol mewn cyflwr ymarferol da ac yn lleihau allyriadau carbon.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi i liniaru risgiau diogelu ac iechyd a diogelwch trwy gyflwyno cyngor ac arweiniad, hyfforddiant a gwiriadau cydymffurfio.
- Parhau i gynorthwyo ysgolion â gweithdrefnau a strategaethau wedi'u diweddaru os bydd achos o darfu ar fusnes yn effeithio ar gynnal ysgolion, i sicrhau parhad mewn dysgu ar gyfer disgyblion.
- Creu cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a hyfforddiant gan bob prosiect buddsoddi, gan gyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol ym mhob cam.

- Datblygu strategaeth ysgolion bro effeithiol, sy'n hyrwyddo gwaith partneriaeth effeithiol gyda theuluoedd, cymunedau ac asiantaethau, ac yn meithrin gwydnwch cymunedol.
- Amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol a defnyddio asedau natur er bydd ein cymunedau ysgolion.
  - Parhau i gyflwyno Gwobr Ysgolion-Eco RhCT i gyfrannu'n gadarnhaol at Strategaeth y Cyngor ar Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd – Hinsawdd Ystyriol RhCT.

**Blaenoriaeth Strategol 4: Deilliannau rydym eisiau eu gweld erbyn 2030**

- Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y Rhaglen Cyfalaf Cynnal a Chadw a ffrydiau cyllid grant yn arwain at: ostyngiad mewn lleoedd dros ben; llai o gostau cynnal a chadw; cyflyrau adeiladau gwell ac effeithlonrwydd o ran ynni; a chapasiti gwell o ran ADY, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gofal plant.
- Mae bron pob un (95% neu fwy) o'r teuluoedd yn y dalgylch yn sicrhau'r lle o'u dewis cyntaf mewn ysgolion yn gyson.
- Mae'r rhan fwyaf (90% neu fwy) o deuluoedd yn sicrhau gofal plant yn eu cymuned.
- Caiff ymgysylltiad gweithredol gan bob un o'r rhanddeiliaid ei sicrhau wrth ddylunio a datblygu adeiladau ysgol newydd.
- Caiff prosiectau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy eu cyflawni'n brydlon ac o fewn cyllideb.
- Mae adborth ar ôl y prosiect gan randdeiliaid yn dangos effeithiau cadarnhaol ac yn llywio'r holl ddatblygiadau newydd a phrosiectau yn y dyfodol.
- Mae partneriaethau teuluol, cymunedol ac amlasiantaethol a mynediad at gyfleusterau ysgolion yn well o gryn dipyn, ac yn diwallu anghenion a dyheadau cymunedol.
- Mae pob rhaglen fuddsoddi yn cyflawni gwerth cymdeithasol a deilliannau gwell ar ystod o fesurau perfformiad.
- Mae 50% o'r holl ysgolion wedi ennill gwobr Eco-Ysgolion RhCT.

# 8. Casgliad

Mae Cynllun Strategol Addysg 2026–30 yn amlinellu gweledigaeth uchelgeisiol a chydweithredol ar gyfer RhCT, un sydd wedi'i gwreiddio mewn rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant ar gyfer pob dysgwr. Trwy adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf ac ymateb yn rhagweithiol i anghenion esblygol ein cymunedau, mae'r cynllun hwn yn darparu map trywydd clir ar gyfer gwelliant parhaus ar draws pob un o'r lleoliadau addysgol a gwasanaethau'r awdurdod lleol.

Mae'r ymrwymiad i arweinyddiaeth gref, llywodraethu cadarn a chydweithio pwrpasol ar bob lefel yn ganolog i'r strategaeth hon. Trwy fuddsoddi'n barhaus yn ein gweithlu, amgylcheddau dysgu modern, ac arferion cynhwysol, ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel, cymorth ac ymyrraeth amserol, a chyfleoedd i ffynnu a llwyddo.

Mae egwyddorion cynaliadwyedd, atal, integreiddio, ymglymiad a meddwl yn yr hirdymor yn sail i'r pedair blaenoriaeth strategol, sef sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cryf; ymgorffori dulliau addysgu, dysgu ac asesu rhagorol; sicrhau addysg a chymorth cynhwysol; a sicrhau cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu dyheadau lleol a pholisi cenedlaethol, sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ymdrechion ar y cyd lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion ac UCDau, teuluoedd, cymunedau, a phartneriaid strategol yn gweithio gyda'i gilydd fel un Carfan. Trwy feithrin diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd, arfer myfyriol, ac arloesedd, byddwn yn parhau i ymdrechu i godi safonau, cau'r bwlch cyrhaeddiad, a sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer pob dysgwr.

Wrth i ni symud ymlaen, bydd trefn gadarn o ran monitro, gwerthuso ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn ymatebol a chreu effaith. Gyda'n gilydd, rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth, sef: cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch, a chynhwysiant i bawb yn RhCT.